Ministry of Justice

# Y Cynllun Cyfryngwyr Tystion

## ADRODDIAD BLYNYDDOL 2019/20

Medi 2020

# Y Weinyddiaeth Gyfiawnder

# Y Cynllun Cyfryngwyr Tystion: Adroddiad Blynyddol 2019/20

(Am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2020)

Os hoffech gael fersiwn o'r adroddiad hwn mewn fformat arall anfonwch ebost i registered.interme@Justice.gov.uk.

# Rhagair gan yr Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol dros Gyfiawnder, Alex Chalk AS



Mae'r Cynllun Cyfryngwyr Tystion yn dal yn ased i'r system cyfiawnder troseddol. Mae'n darparu gwasanaeth hanfodol i rai o'r bobl fwyaf bregus yn ein cymdeithas ac yn hybu mynediad cyfartal at gyfiawnder ledled Cymru a Lloegr.

Mae'r Cynllun yn dibynnu llawer ar waith Cyfryngwyr Cofrestredig ymroddedig sydd â sgiliau arbennig. Bob blwyddyn mae'r rhain yn helpu miloedd o bobl sydd ag anawsterau cyfathrebu i gymryd rhan mewn achosion llys ac yng nghyfweliadau'r heddlu. Mae'r cymorth a roddir gan Gyfryngwyr Cofrestredig yn hynod o bwysig; maent yn galluogi llawer o ddioddefwyr a thystion i roi eu tystiolaeth orau lle byddai hyn yn amhosibl fel arall. Drwy wneud hyn, maent wedi gwneud gwahaniaeth mawr i fywydau llawer o bobl.

Drwy gydol 2019/20, mae'r Cynllun wedi darparu ar gyfer pobl sydd ag anawsterau cyfathrebu a defnyddwyr gwasanaeth fel ei gilydd. Llwyddodd i ateb mwy o geisiadau am gymorth Cyfryngwyr Cofrestredig yn ystod y flwyddyn hon nag mewn unrhyw flwyddyn arall ers pan sefydlwyd ef un mlynedd ar bymtheg yn ôl, gan helpu mewn dros 6700 o achosion; roedd mwy na hanner yr achosion hyn yn gysylltiedig â phlant. Cafwyd adborth cadarnhaol iawn gan ddefnyddwyr gwasanaeth yn yr heddlu ac yng Ngwasanaeth Erlyn y Goron, sy'n dangos bod barn Cyfryngwyr Cofrestredig yn cael ei pharchu. Mae gweithgareddau recriwtio a drefnwyd yn ddiweddar gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder hefyd wedi bod yn llwyddiant ysgubol, gan gynyddu capasiti'r Cynllun 24% rhwng 2017 a 2019, a lleihau amseroedd aros defnyddwyr gwasanaeth i bythefnos neu lai.

Mae'r galw am Gyfryngwyr Cofrestredig yn cynyddu o hyd, ac mae bodloni'r galw hwn yn dal yn flaenoriaeth i'r Weinyddiaeth Gyfiawnder. I'r perwyl hwn, cymerwyd camau i ddiwygio strategaeth recriwtio'r Cynllun, gan sicrhau bod modd darparu'r sgiliau sydd eu hangen fwyaf yn ogystal â bodloni'r galw rhanbarthol. Yn y dyfodol, byddwn yn adeiladu ar lwyddiannau'r blynyddoedd diwethaf, gan roi mwy o ran i Gyfryngwyr Cofrestredig mewn prosesau gwneud penderfyniadau, a gwella trefniadau sicrhau ansawdd er mwyn helpu i sicrhau bod y trefniadau llywodraethu'n cyfateb i'r cynnydd yn y galw. Byddwn yn dal i ganolbwyntio ar ddarparu Cynllun Cyfryngwyr Tystion o safon uchel i bawb sy'n ei ddefnyddio, tra'n cyfrannu at yr ymdrech ehangach i roi mwy o gefnogaeth i bobl fregus yn y system gyfiawnder.



**Alex Chalk AS**
**Yr Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol dros Gyfiawnder**

# Cynnwys


Rhagair gan yr Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol dros Gyfiawnder 2

Termau a Byrfoddau 5

Cyflwyniad: Y Cynllun Cyfryngwyr Tystion yn 2019/20 6

2019/20: Y Flwyddyn mewn Rhifau 8

**Rhan Un: Trosolwg o'r Cynllun Cyfryngwyr Tystion**

Y Weinyddiaeth Gyfiawnder 9

Yr Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol 9

Y Bwrdd Cofrestru Cyfryngwyr 9

Y Bwrdd Sicrhau Ansawdd 10

Y Tîm Cyfeiriol Cyfryngwyr Cofrestredig 14

**Amcanion y Cynllun: Ein Blaenoriaethau yn y Flwyddyn** 15

**Cyfweliad â Chadeirydd y Bwrdd Sicrhau Ansawdd:** Yr Athro Karen Bryan 16

**Cyfweliad â Chyfryngwr Cofrestredig:** Dr Brendan O'Mahony 19

**Rhan Dau: Dadansoddi Perfformiad 2019/20**

Methodoleg 22

Crynodeb 22

Ceisiadau wedi'u Canslo 23

Ceisiadau heb eu Paru 23

Data Perfformiad ar gyfer 2019/20:

- Cyfanswm y Ceisiadau am Gyfryngwyr Cofrestredig 24
- Ceisiadau yn ôl Bregusrwydd Tystion 26
- Ceisiadau yn ôl Oed Tystion 32
- Ceisiadau yn ôl y Math o Dyst 34
- Ceisiadau yn ôl Defnyddiwr Gwasanaeth 36
- Adborth gan Ddefnyddwyr Gwasanaeth 38

**Cyfweliad â Chyfryngwr Cofrestredig:** Sue Thurman 40

**Rhan Tri: Datblygiadau yn y Cynllun Cyfryngwyr Tystion 2019/20**

Crynodeb 44

Recriwtio ar sail Sgiliau 44

Capasiti'r Cynllun 45

Diweddaru Dulliau Gweithio'r Bwrdd Sicrhau Ansawdd 46

Llywodraethu a Thryloywder 46

Trosglwyddo'r Cyfrifoldeb am Recriwtio a Hyfforddi 47

Adolygiad o Wasanaethau Cyfryngwyr 47

Achredu Cyfryngwyr Cofrestredig 47

Cynhadledd 2020 y Cynllun Cyfryngwyr Tystion 49

**Cyfweliad â Chyfryngwr Cofrestredig:** Lorraine Campbell 50

**Rhan Pedwar: Cyllid y Cynllun Cyfryngwyr Tystion**

Y Gyllideb Weinyddol 55

Cyfraddau Tâl 55

**Cyfweliad â Chyfryngwr Cofrestredig:** Louise Engers 56

**Rhan Pump: Edrych Ymlaen**

Bodloni'r Cynnydd yn y Galw 59

Gwella'r Trefniadau Sicrhau Ansawdd 59

Cwblhau'r Adolygiad o Wasanaethau Cyfryngwyr 59

Rolau Uwch Gyfryngwyr Cofrestredig 60

# Termau a Byrfoddau

| | |
|---|---|
| ABE | Sicrhau’r Dystiolaeth Orau |
| aRI | Cyfryngwr Cofrestredig Achrededig |
| CJS | Y System Cyfiawnder Troseddol |
| CPD | Datblygiad Proffesiynol Parhaus |
| CPS | Gwasanaeth Erlyn y Goron |
| Defnyddiwr Gwasanaeth | Y parti sy’n gofyn am wasanaeth Cyfryngwr Cofrestredig, fel arfer yr heddlu neu Wasanaeth Erlyn y Goron |
| IRB | Y Bwrdd Cofrestru Cyfryngwyr |
| Live Link | Unrhyw dechnoleg ddiogel â’r un effaith â chyfleusterau cynadleddau fideo neu’r rhyngrwyd. Cyswllt teledu cylch cyfyng yw hwn fel arfer. |
| MoJ | Y Weinyddiaeth Gyfiawnder |
| NCA | Yr Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol |
| NPCC | Cyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu |
| NQRI | Cyfryngwyr Cofrestredig Newydd Gymhwyso |
| QAB | Y Bwrdd Sicrhau Ansawdd |
| RfS | Cais am Wasanaeth |
| RI | Cyfryngwr Cofrestredig |
| RIRT | Tîm Cyfeiriol Cyfryngwyr Cofrestredig |
| SLT | Therapi/Therapydd Iaith a Lleferydd |
| WIS | Y Cynllun Cyfryngwyr Tystion |
| WIT | Y Tîm Cyfryngwyr Tystion |
| YJCEA | Deddf Cyfiawnder Ieuenctid a Thystiolaeth Droseddol 1999 |

# Cyflwyniad: Y Cynllun Cyfryngwyr Tystion yn 2019/20

## Cefndir

Cafodd y Cynllun Cyfryngwyr Tystion ei dreialu yng Nghymru a Lloegr yn 2004 er mwyn gweithredu'r mesur arbennig ar gyfer cyfryngwyr a gyflwynwyd yn Neddf Cyfiawnder Ieuenctid a Thystiolaeth Droseddol 1999. Yn 2008 cafodd ei roi ar waith yn genedlaethol, a lluniwyd cofrestr o gyfryngwyr wedi'u recriwtio a'u hyfforddi gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder. Daethpwyd i adnabod y cyfryngwyr hyn fel Cyfryngwyr Cofrestredig.

Arbenigwyr cyfathrebu hunangyflogedig yw Cyfryngwyr Cofrestredig, ac maent yn helpu tystion ac achwynwyr sydd ag anawsterau cyfathrebu i roi tystiolaeth i'r heddlu a'r llys mewn treialon troseddol. Yn aml iawn, oni bai am y cymorth hwn ni fyddai tyst yn gallu rhoi tystiolaeth.

Cyflwynwyd rôl y cyfryngwr gan adran 29 o Ddeddf Cyfiawnder Ieuenctid a Thystiolaeth Droseddol 1999, sy'n nodi y gellir croesholi tyst mewn achos troseddol, ar eithrio diffynnydd, drwy gyfryngwr. Mae adran 16 o'r Ddeddf yn nodi bod tyst yn gymwys i gael cymorth gan gyfryngwr:

- os yw dan 18 oed ar adeg y gwrandawiad; neu
- os yw'r llys yn credu nad yw tystiolaeth a roddir gan y tyst yn debygol o fod o ansawdd da iawn oherwydd:
  - anhwylder meddyliol (yn unol â'r ystyr yn Neddf Iechyd Meddwl 1983[1]); neu
  - amhariad arwyddocaol ar ddeallusrwydd a gweithrediad cymdeithasol; neu
  - anabledd corfforol neu anhwylder corfforol.

Mae'r adroddiad blynyddol hwn yn cynnwys trosolwg o drefniadau llywodraethu, gweithrediad a pherfformiad y Cynllun Cyfryngwyr Tystion o 1 Ebrill 2019 hyd 31 Mawrth 2020.

## Crynodeb o 2019/20

Drwy gydol 2019/20 mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder wedi ceisio cryfhau'r Cynllun drwy wella'r prosesau llywodraethu, sicrhau ansawdd a recriwtio. Roedd yr ymdrechion hyn yn canolbwyntio ar gamau strategol i gynyddu capasiti'r Cynllun i gyfateb i'r cynnydd yn y galw gan ddefnyddwyr gwasanaeth, ynghyd â recriwtio Cyfryngwyr Cofrestredig sydd â'r sgiliau a'r wybodaeth arbenigol sydd ei hangen fwyaf.

Mae nifer y ceisiadau am Gyfryngwr Cofrestredig drwy'r Cynllun wedi cynyddu 483% rhwng 2010 a 2020, a chofnodwyd cynnydd o 10% rhwng 2018/19 a 2019/20. Derbyniodd y Cynllun gyfanswm o 6,907 o geisiadau am gymorth Cyfryngwr Cofrestredig yn 2019/20, y nifer mwyaf o geisiadau mewn unrhyw gyfnod o 12 mis ers cyflwyno'r Cynllun yn

[1] Mae Deddf Iechyd Meddwl 1983 yn diffinio 'anhwylder meddyliol' fel 'unrhyw anhwylder neu analluedd meddyliol'.

genedlaethol yn 2008. O ganlyniad i'r twf cyson hwn yn y galw, cynhaliodd y Weinyddiaeth Gyfiawnder dair ymgyrch recriwtio, gan recriwtio 39 o Gyfryngwyr Cofrestredig newydd.[2]

Gan fod mwy o Gyfryngwyr Cofrestredig ar gael cynyddodd canran y ceisiadau a barwyd o 96.1% o'r cyfanswm blynyddol yn 2018/19 i 98.3%; roedd llai nag 1% o'r ceisiadau heb eu paru. Mae hyn hefyd wedi helpu i sicrhau bod yr amseroedd aros arferol am gymorth Cyfryngwr Cofrestredig yn parhau'n bythefnos neu lai. Mae'r adborth gan ddefnyddwyr gwasanaeth (yr heddlu neu'r CPS fel arfer) wedi parhau'n gadarnhaol iawn, â 99.8% o'r ymatebion yn cael eu cofnodi fel rhai 'rhagorol', 'mwy na boddhaol' neu 'foddhaol'.

Cafodd y Bwrdd Sicrhau Ansawdd ei ad-drefnu drwy recriwtio pedwar aelod newydd a chyflwyno chwe rôl benodol. Mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder wedi parhau i sicrhau mwy o dryloywder yn y Cynllun Cyfryngwyr Tystion, drwy gyhoeddi adroddiad blynyddol cyntaf y Cynllun. Mae hefyd wedi cynyddu rhan Cyfryngwyr Cofrestredig yn nhrefniadau llywodraethu'r Cynllun drwy ofyn am fewnbwn gan Gyfryngwyr Cofrestredig i bolisïau, canllawiau a chynlluniau sy'n cael eu datblygu, gan gynnwys yr adolygiad blynyddol o'r Llawlyfr Canllawiau Gweithdrefnol. Cyflwynwyd proses wedi'i safoni ar gyfer yr adolygiad blynyddol o gyfraddau tâl Cyfryngwyr Cofrestredig hefyd, gan nodi amserlen glir ar gyfer gwneud penderfyniadau.

Mae'r cynllun achredu ar gyfer Cyfryngwyr Cofrestredig profiadol wedi dal i ddatblygu yn dilyn ymgyrch recriwtio arall ac ar ôl penodi Cydlynydd ar gyfer Rhanbarth Canolbarth Lloegr. Trosglwyddwyd y cyfrifoldeb am hyfforddi a recriwtio Cyfryngwyr Cofrestredig newydd i Dîm Cyfryngwyr Tystion yr Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol (NCA) er mwyn cryfhau'r cysylltiad rhwng gweithrediadau a gweithgareddau recriwtio. Mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder hefyd wedi symud ymlaen â'r adolygiad o wasanaethau cyfryngwyr ar draws y system gyfiawnder, a chyflwynwyd opsiynau ar gyfer newid i'w hystyried gan y Gweinidog.

Y flwyddyn nesaf, bydd y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn parhau â'i hymrwymiad i sicrhau bod defnyddwyr gwasanaeth yn cael cymorth o safon gan Gyfryngwyr Cofrestredig - cymorth sydd wedi'i anelu'n benodol at anghenion tystion – gan gydweithio â rhanddeiliaid o bob rhan o'r system gyfiawnder. Mae cryfhau'r gweithdrefnau sicrhau ansawdd hefyd yn un o'r prif flaenoriaethau, ynghyd â recriwtio o leiaf ddau Gydlynydd Rhanbarthol arall a chwblhau'r adolygiad o wasanaethau cyfryngwyr ar draws y system gyfiawnder.

## Cyfweliadau

Cynhaliwyd y pum cyfweliad sydd yn yr adroddiad blynyddol hwn gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder rhwng Mai 2020 ac Awst 2020. Cafwyd caniatâd penodol gan bob un o'r rhai a gyfwelwyd.


## Ffynonellau Data

Daw'r holl ystadegau sydd yn yr adroddiad hwn, oni nodir yn wahanol, gan Dîm Cyfryngwyr Tystion yr NCA a Thîm Cyfryngwyr y Weinyddiaeth Gyfiawnder.

---

[2] Ystadegau recriwtio'r Cynllun Cyfryngwyr Tystion ar gyfer y cyfnod 1 Ebrill 2019 – 31 Mawrth 2020. (Ym mis Medi 2020, roedd 15 o'r 39 cyfryngwr newydd sydd wedi'u recriwtio yn disgwyl am hyfforddiant, sydd wedi'i ohirio oherwydd Covid-19).

# 2019/20: Y Flwyddyn mewn Rhifau



# Rhan Un: Trosolwg o'r Cynllun Cyfryngwyr Tystion

## Y Weinyddiaeth Gyfiawnder (Tîm Polisi Cyfryngwyr)

Tîm Polisi Cyfryngwyr y Weinyddiaeth Gyfiawnder sy'n bennaf gyfrifol am y Cynllun Cyfryngwyr Tystion. Mae hyn yn cynnwys materion strategol a pholisi, yn ogystal ag ariannu a goruchwylio gweinyddiaeth y Cynllun; dirprwywyd y cyfrifoldeb am oruchwylio gweinyddiaeth y Cynllun i'r NCA. Darperir trefniadau llywodraethu drwy'r Bwrdd Sicrhau Ansawdd a'r Bwrdd Cofrestru Cyfryngwyr.

Yr Uned Polisi Bregusrwydd, sy'n rhan o Gyfarwyddiaeth Teulu a Chyfiawnder Troseddol y Weinyddiaeth Gyfiawnder, sy'n gyfrifol am bolisi sy'n ymwneud â Chyfryngwyr Cofrestredig.

## Yr Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol (Tîm Cyfryngwyr Tystion)

Mae Tîm Cyfryngwyr Tystion yr Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol (NCA) wedi bod yn gyfrifol am agweddau cyflawni gweithredol y Cynllun er 2013, gan gynnwys rheoli'r Gofrestr Cyfryngwyr Cofrestredig a Chronfa Ddata'r Gwasanaeth Paru. Yn 2020, daeth y Tîm Cyfryngwyr Tystion yn gyfrifol am recriwtio a chofrestru Cyfryngwyr Cofrestredig newydd.

Caiff y Tîm Cyfryngwyr Tystion ei arwain gan y Cynghorydd Tystion Bregus Cenedlaethol, sy'n gweithio'n rheolaidd ar ymchwiliadau i droseddau mawr er mwyn cynorthwyo â'r gwaith o ddatblygu strategaethau cyfweld a rheoli tystion mewn achosion sy'n cynnwys tystion bregus iawn.

Prif elfen weithredol y Cynllun Cyfryngwyr Tystion yw'r Gwasanaeth Paru. Dyma'r mecanwaith sy'n galluogi'r Tîm Cyfryngwyr Tystion i baru Cyfryngwyr Cofrestredig â gofynion tystion ar gais y defnyddiwr gwasanaeth. Drwy'r Gwasanaeth Paru, mae'r Tîm Cyfryngwyr Tystion yn casglu data yn ymwneud â'r defnydd o Gyfryngwyr Cofrestredig, er enghraifft nifer y ceisiadau ym mhob ardal a'r rheswm/rhesymau dros y cais (er enghraifft y math o fregusrwydd ac oed y tyst). Cofnodir y data hyn yng Nghronfa Ddata'r Gwasanaeth Paru a dyma'r prif ddull o fesur newidiadau a thueddiadau sy'n dod i'r amlwg yn y galw am Gyfryngwyr Cofrestredig.

## Y Bwrdd Cofrestru Cyfryngwyr

Mae'r Bwrdd Cofrestru Cyfryngwyr yn cyfarfod yn chwarterol ac mae'n dod â'r prif randdeiliaid o wahanol rannau o'r system cyfiawnder troseddol at ei gilydd. Mae'r rhain yn cynnwys Gwasanaeth Erlyn y Goron (y CPS) a'r heddlu, fel defnyddwyr y gwasanaethau a ddarperir. Caiff ei gadeirio gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder.

Mae'r Bwrdd yn canolbwyntio ar gyfeiriad strategol, rheoli polisi a strategaeth y Cynllun, a dyma'r corff llywodraethu sy'n cytuno ar benderfyniadau polisi'r Cynllun.

Mae'r aelodau'n gyfrifol am gynrychioli eu sefydliadau ar y Bwrdd ac am gynrychioli'r Cynllun yn eu sefydliadau. Er enghraifft, mae cynrychiolydd yr heddlu'n gweithredu fel llysgennad i'r cynllun yn yr heddlu ac yn cymryd camau i wella proffil y Cynllun neu fynd i'r afael ag unrhyw broblemau yn ôl y galw.

| CYNRYCHIOLWYR Y BWRDD COFRESTRU CYFRYNGWYR | |
|---|---|
| **Aelod** | **Corff y mae'n ei Gynrychioli** |
| **Laura Beaumont/Abigail Plenty** | Cadeirydd / Dirprwy Gyfarwyddwr Uned Bregusrwydd y Weinyddiaeth Gyfiawnder |
| **Fiona Beazer** | Gwasanaeth Tystion Cyngor ar Bopeth |
| **Hannah Kappler** | Gwasanaeth Erlyn y Goron |
| **Adrienne Finney** | Yr Adran Gyfiawnder, Gogledd Iwerddon |
| **Julie Wilson** | Yr Adran Gyfiawnder, Gogledd Iwerddon |
| **Rachael Bower** | Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM |
| **Sidonie Kingsmill** | Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM |
| **Janet Arkinstall** | Cymdeithas y Gyfraith |
| **Samantha Dine** | Y Weinyddiaeth Gyfiawnder |
| **Philip Campbell** | Y Weinyddiaeth Gyfiawnder |
| **Frank Glen** | Yr Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol |
| **Nicola Furlong** | Cyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu / Heddlu Swydd Stafford |
| **Y Prif Gwnstabl Cynorthwyol, Emma Barnett** | Cyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu / Heddlu Swydd Stafford |
| **Karen Bryan** | Y Bwrdd Sicrhau Ansawdd |
| **Cydlynydd Rhanbarthol** | Cynrychiolydd Cyfryngwyr Cofrestredig |

## Y Bwrdd Sicrhau Ansawdd

Y Bwrdd Sicrhau Ansawdd yw'r corff sy'n gyfrifol am sicrhau ansawdd, rheoleiddio a monitro safonau proffesiynol Cyfryngwyr Cofrestredig sy'n ymwneud â'r Cynllun Cyfryngwyr Tystion. Ei nod yw sicrhau bod gwasanaeth cyfryngu proffesiynol, o safon uchel yn cael ei ddarparu i ddioddefwyr a thystion sydd ag anghenion cyfathrebu.

Mae'r Bwrdd yn cyfarfod yn chwarterol ac mae'n cynnwys unigolion sydd â phrofiad proffesiynol helaeth ym maes rheoleiddio a sicrhau ansawdd. Mae'n atebol i'r Bwrdd Cofrestru Cyfryngwyr.

Rôl y Bwrdd Cofrestru Cyfryngwyr yw:

- **Cytuno ar safonau ar gyfer rheoli ansawdd y broses recriwtio, hyfforddi, achredu a datblygiad proffesiynol parhaus Cyfryngwyr Cofrestredig a dangos arweiniad**
- **Cynnal a chadw'r gofrestr o Gyfryngwyr Cofrestredig a sicrhau ei bod yn addas i'r diben**

- **Sicrhau bod Cyfryngwyr Cofrestredig yn gweithredu yn unol â'r Cod Ymarfer a'r Cod Moeseg**
- **Sicrhau ymchwiliad llawn i gwynion yn erbyn Cyfryngwyr Cofrestredig yn unol â pholisi a threfn gwyno'r Bwrdd Cofrestru Cyfryngwyr**
- **Monitro a chefnogi'r gwaith o ddatblygu pob agwedd ar rôl broffesiynol y Cyfryngwr Cofrestredig**

Mae gan y Bwrdd Sicrhau Ansawdd un deg pedwar o aelodau. Mae saith o'r rhain yn aelodau annibynnol sy'n arwain agweddau penodol ar waith y Bwrdd Sicrhau Ansawdd. Mae saith aelod arall yn gynrychiolwyr swyddogol o'r Weinyddiaeth Gyfiawnder, yr NCA, y CPS a Choleg Brenhinol y Therapyddion Lleferydd ac Iaith (RCSLT).

**Y BWRDD SICRHAU ANSAWDD: AELODAU ANNIBYNNOL**

| Aelod | Proffil |
|---|---|
| <br>**Yr Athro Karen Bryan**<br>Cadeirydd y Bwrdd Sicrhau Ansawdd | **Yr Athro Karen Bryan** yw Is-ganghellor Prifysgol York St John. Arferai fod yn Ddirprwy Is-ganghellor (Academaidd) ym Mhrifysgol Greenwich. Cyn hynny roedd yn Ddirprwy Is-ganghellor ar gyfer Ymgysylltu Rhanbarthol a Deon y Gyfadran Iechyd a Llesiant ym Mhrifysgol Sheffield Hallam, a bu'n dal swyddi academaidd ym Mhrifysgol Surrey a Choleg Prifysgol Llundain. Bu'r Athro Bryan hefyd yn dal swyddi a oedd yn cael eu hariannu gan y GIG tan 2013.<br><br>Cymhwysodd yr Athro Bryan fel therapydd iaith a lleferydd o Brifysgol Newcastle upon Tyne ac yno hefyd y cafodd ei gradd PhD. Mae ei diddordebau ymchwil yn ymwneud ag anawsterau cyfathrebu ymhlith troseddwyr ifanc ac mewn poblogaethau fforensig, yn ogystal ag effaith anawsterau cyfathrebu ar fynediad at ofal iechyd. Roedd yr Athro Bryan yn arfer bod yn aelod o Gyngor y Proffesiynau Iechyd.<br><br>Mae'r Athro Bryan yn Athro Gwadd yn Adran Niwroseicoleg Prifysgol Warsaw, ac yn gymrawd o Goleg Brenhinol y Therapyddion Lleferydd ac Iaith. Dyfarnwyd OBE iddi yn 2018 am ei gwasanaethau i addysg uwch. |
| <br>**Clare Hickey**<br>Arweinydd Recriwtio a Hyfforddi | Mae **Clare Hickey** yn Ymgynghorydd Adnoddau Dynol llawrydd. Mae'n cynghori busnesau ar strategaeth, recriwtio, hyfforddi a datblygu pobl, ac yn darparu hyfforddiant sy'n canolbwyntio ar atebion.<br><br>Mae Clare wedi rhedeg ei busnes ymgynghori ei hun ers saith mlynedd, gan ganolbwyntio ar ddarparu cyngor ar ddiwylliant a datblygu sefydliadol â phrosiectau rheolaidd ym maes recriwtio, hyfforddi a monitro safonau proffesiynol. Mae'n gweithio'n bennaf gyda busnesau bach a chanolig eu maint ac mae ei chleientiaid yn |

cynnwys cwmnïau yn y diwydiannau digidol, ffasiwn, digwyddiadau a gweithgynhyrchu.

Roedd Clare yn arfer cael ei chyflogi fel Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol i frandiau dillad merched rhyngwladol, siopau LK Bennett ac Oasis. Roedd yn canolbwyntio ar wella gallu'r cwmnïau drwy well trefniadau recriwtio, cynefino, hyfforddiant a chefnogaeth barhaus.

Yn ogystal â'i gwaith fel ymgynghorydd mae Clare yn eistedd fel Ynad yn Ne Essex. Mae hefyd yn rhan o'r tîm 'Ynadon yn y Gymuned', sy'n ymweld ag ysgolion i gyflwyno gweithdai ar y farnwriaeth ac i godi ymwybyddiaeth o faterion yn ymwneud â throseddau cyllyll, seiberfwlio a Llinellau Cyffuriau.

**Alison Peasgood**
Ymgynghorydd Cyffredinol

Mae **Alison Peasgood** yn Therapydd Iaith a Lleferydd arbenigol a chanddi brofiad helaeth o weithio gyda chleifion byddar a chleifion sydd ag anhwylderau pen, gwddf a llais mewn ysbytai a chanolfannau iechyd.

Yn 1994 ymunodd Alison â'r Tîm Mewnblaniad yn y Cochlea (Oedolion) yn Ysbyty Middlesex yn Llundain. Yn 1997, symudodd y Tîm i'r Ysbyty Cenedlaethol Brenhinol Gwddf, Trwyn a Chlustiau, lle chwaraeodd Alison ran allweddol yn y gwaith o sefydlu Rhaglen Mewnblaniadau Pediatrig yr ysbyty.

Yn dilyn hynny, rhwng 2002 a 2012 bu Alison yn gweithio fel Cynghorydd Clinigol Arbenigol (ar fyddardod) i Goleg Brenhinol y Therapyddion Lleferydd ac Iaith. Mae Alison hefyd wedi cymryd rhan yn y gwaith o hyfforddi myfyrwyr meddygol ar eu cylchdroeon ENT, yn ogystal â nyrsys ac israddedigion ar gyrsiau therapi iaith a lleferydd.

Mae Alison wedi bod yn ymwneud â'r Cynllun Cyfryngwyr Tystion er 2003, cyn lansio'r cynllun peilot yn 2004.



**Anne Phillimore**
Arweinydd Mentora a Chefnogi

Yn ystod ei gyrfa ym maes Adnoddau Dynol mae **Anne Phillimore** wedi gweithio mewn nifer o wahanol gyrff sector cyhoeddus, gan gynnwys Swyddfa'r Post, Swyddfa'r Ombwdsmon a Thollau Tramor a Chartref.

Yn 2004 dychwelodd i Gymru i ymgymryd â swydd Cyfarwyddwr Personél mewn Ymddiriedolaeth GIG Acíwt. Yn 2009, symudodd i ymgymryd â swydd Cyfarwyddwr Gweithredol y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol mewn Bwrdd Iechyd Integredig newydd yng Ngwent, ac ymddeolodd o'r swydd honno yn 2015.

Ers hynny mae Anne wedi rhedeg ei busnes ymgynghori adnoddau dynol ei hun, ac yn ddiweddar cwblhaodd gyfnod o 10 mis fel Cyfarwyddwr Gweithredol Dros Dro y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol i Fwrdd Gofal Iechyd integredig arall yng Nghymru. Mae Anne hefyd yn aelod lleyg o Baneli Ymddygiad a Chymhwysedd y

Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth, ac yn Aelod o Gorff Adolygu Tâl Agenda ar gyfer Newid y GIG.

Drwy gydol ei gyrfa, mae Anne wedi bod yn gyfrifol am arwain a chyflawni ymyriadau gweithlu sy'n ychwanegu gwerth mewn nifer o wahanol sefydliadau, drwy sefydlu dulliau hyfforddi a mentora a rhwydweithiau sy'n cefnogi diwylliant o arwain a datblygu staff. Mae Anne hefyd yn Gymrawd Siartredig o'r Sefydliad Siartredig Personél a Datblygu.

**John Postlethwaite**
Arweinydd Adborth Negyddol, Cwynion a Sancsiynau

Mae gan **John Postlethwaite** dros 25 mlynedd o brofiad o weithio gyda phlant, teuluoedd a chymunedau mewn awdurdod lleol, yn y trydydd sector ac mewn lleoliadau iechyd. Mae wedi treulio cyfran helaeth o'r cyfnod hwn fel uwch arweinydd.

Yn rhinwedd ei swydd, mae John wedi llwyddo i sicrhau newid a gwelliant mewn lleoliadau iechyd a gofal cymdeithasol amrywiol. Yn fwyaf diweddar datblygodd ac arweiniodd raglen i'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn ymwneud ag oedolion ag anabledd dysgu cudd sy'n droseddwyr, gan gyflwyno newidiadau a fabwysiadwyd gan wasanaethau carchar a chymunedol ledled Cymru a Lloegr.

Mae gan John ddiddordeb mawr mewn ymarfer a modelau seiliedig ar dystiolaeth ar gyfer newid personol, ac mae wedi sefydlu ac arwain nifer o brosiectau ymchwil rhanbarthol a chenedlaethol yn ymwneud â diogelu a chefnogi teuluoedd.

Ymunodd John â'r Bwrdd Sicrhau Ansawdd yn 2017 ac mae ganddo gyfrifoldeb penodol am reoli adborth a chwynion.



**Benjamin Roe**
Arweinydd Datblygiad Proffesiynol Parhaus a'r Gofrestr Cyfryngwyr Cofrestredig

Mae **Ben Roe** yn Gyfreithiwr Gwybodaeth Arweiniol ar gyfer grŵp anghydfodau byd-eang a chydymffurfiad mewn cwmni cyfreithiol rhyngwladol blaenllaw. Mae'n gyfrifol am anghenion gallu, datblygiad proffesiynol a hyfforddiant tua 1400 o gyfreithwyr ymgyfreitha, cymrodeddu a chydymffurfiad mewn 77 o swyddfeydd.

Mae Ben yn gyfreithiwr ymgyfreitha profiadol, a chyn ei swydd bresennol roedd yn gweithio mewn practis preifat yn Llundain. Mae wedi rheoli nifer o achosion proffil uchel, yn ymwneud yn aml â materion trawsffiniol. Mae wedi cael llawer o brofiad o baratoi tystion ar gyfer treialon a chefnogi unigolion drwy broses sy'n aml yn anghyfarwydd.

Mae gan Ben hawl i ymddangos mewn llysoedd uwch ac mae'n gyfryngwr wedi'i achredu gan CEDR. Mae'n Swyddog o Bwyllgor Datblygiad Academaidd a Phroffesiynol Cymdeithas Ryngwladol y Bar. Mae Ben hefyd yn aelod o Gymdeithas Cyfreithwyr Cefnogaeth Broffesiynol Ymgyfreitha ac yn gyn-aelod o Bwyllgor Cymdeithas Ymgyfreitha Cyfreithwyr Llundain.



**Amanda Webster**
Arweinydd Sicrhau Ansawdd

Mae **Amanda Webster** yn gyfreithwraig mewn ymarfer masnachol ac yn Gyfarwyddwr cwmni cyfreithwyr Harrison-Drury, yn Sir Gaerhirfryn a Cumbria. Yn ystod ei gyrfa gyfreithiol, dros 33 o flynyddoedd, mae wedi datblygu arbenigedd ym maes cyfraith reoleiddiol ac ymgyfreitha masnachol. Hi yw Prif Hyfforddwr y cwmni, ac mae'n cefnogi'r gwaith o recriwtio a datblygu'r genhedlaeth nesaf o gyfreithwyr.

Mae Amanda wedi cyfuno ei gyrfa gyfreithiol â gwasanaeth yn y sectorau cyhoeddus ac elusennol. Mae'n Ddirprwy Farnwr Rhanbarth, yn eistedd yn Llysoedd Sifil a Theuluol Gorllewin Swydd Efrog, ac yn Gadeirydd Tribiwnlys Apeliadau'r Heddlu, sy'n gwrando ar apeliadau mewn achosion disgyblu yn ymwneud â'r heddlu.

Yn ystod ei chyfnod fel Is-gadeirydd Awdurdod Heddlu Sir Gaerhirfryn, ac yn ddiweddarach fel Comisiynydd Heddlu a Throseddu Cynorthwyol, bu'n canolbwyntio ar gynllunio gwasanaethau'n effeithiol a gweithio mewn partneriaeth er mwyn gwella cyfiawnder troseddol ac amddiffyn pobl sy'n agored i niwed. Mae wedi cadw ffocws tebyg yn ei rôl fel un o Ymddiriedolwyr Red Rose Recovery, elusen sy'n darparu cymorth dan arweiniad cymheiriaid er mwyn gwella bywydau pobl sy'n mynd drwy adferiad.

**Y BWRDD SICRHAU ANSAWDD: CYNRYCHIOLWYR SWYDDOGOL**

| Aelod | Corff y mae'n ei Gynrychioli |
|---|---|
| **Samantha Dine** | Y Weinyddiaeth Gyfiawnder |
| **Philip Campbell** | Y Weinyddiaeth Gyfiawnder |
| **Hannah Kappler** | Gwasanaeth Erlyn y Goron |
| **David Liddle** | Yr Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol |
| **Rachel Surkitt** | Yr Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol |
| **Nicola Furlong** | Cyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu |
| **Clare Moser** | Coleg Brenhinol y Therapyddion Lleferydd ac Iaith |

## Y Tîm Cyfeiriol Cyfryngwyr Cofrestredig

Mae'r Tîm Cyfeiriol Cyfryngwyr Cofrestredig yn cynnwys cynrychiolwyr hunan-benodedig o grwpiau Cyfryngwyr Cofrestredig rhanbarthol a'i nod yw cyfleu buddiannau Cyfryngwyr Cofrestredig i'r Weinyddiaeth Gyfiawnder. Ar hyn o bryd mae'r Tîm yn cynnwys 12 o gynrychiolwyr, sy'n cynrychioli 12 grŵp rhanbarthol gweithredol. Mae'r Tîm yn cyfarfod y Pennaeth Polisi Cyfryngwyr yn rheolaidd.

# Amcanion y Cynllun: Ein Blaenoriaethau yn y Flwyddyn

Drwy gydol 2019/20, mae dull y Weinyddiaeth Gyfiawnder o reoli'r Cynllun wedi bod yn seiliedig ar dair blaenoriaeth greiddiol:

- **Cynyddu capasiti'r Cynllun yn strategol**
- **Cryfhau'r trefniadau llywodraethu**
- **Rhoi mwy o ran i Gyfryngwyr Cofrestredig yn y broses o wneud penderfyniadau**

## Cynyddu Capasiti'r Cynllun yn Strategol

Mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder wedi parhau â'i hymrwymiad i ehangu capasiti'r Cynllun er mwyn cynyddu cyfraddau'r ceisiadau sy'n cael eu paru'n llwyddiannus a sicrhau y caiff cymorth Cyfryngwyr Cofrestredig ei ddarparu'n fuan.

Mae wedi cyflwyno dull newydd o weithredu sy'n seiliedig ar sgiliau er mwyn ategu'r ymgyrch recriwtio ranbarthol. Drwy wneud hyn mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder wedi sicrhau bod modd cael yr arbenigedd sydd ei angen fwyaf yn y Cynllun, a darparu ar gyfer y cynnydd yn y galw gan ddefnyddwyr gwasanaeth.

## Cryfhau Trefniadau Llywodraethu'r Cynllun

Mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder wedi gweithredu er mwyn cryfhau trefniadau llywodraethu'r Cynllun. Mae wedi diweddaru dulliau gweithio'r Bwrdd Sicrhau Ansawdd, trosglwyddo cyfrifoldebau recriwtio a hyfforddi i'r NCA, a gweithio mewn partneriaeth â Chyfryngwyr Cofrestredig er mwyn adolygu a diwygio'r canllawiau, y polisïau a'r cynlluniau a oedd yn bodoli'n barod.

## Rhoi Mwy o Ran i Gyfryngwyr Cofrestredig yn y Broses o Wneud Penderfyniadau

Mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder wedi gweithredu er mwyn rhoi mwy o ran i Gyfryngwyr Cofrestredig yn y broses o wneud penderfyniadau o fewn y Cynllun. Mae wedi cynyddu nifer y Cyfryngwyr Cofrestredig achrededig, gan roi mwy o gyfleoedd i Gyfryngwyr Cofrestredig profiadol ymgymryd ag ystod eang o aseiniadau corfforaethol, o fewnbwn i'r polisïau a'r dogfennau sy'n cael eu paratoi, i recriwtio, cyflwyno hyfforddiant Cyfryngwyr Cofrestredig a mentora Cyfryngwyr Cofrestredig sydd newydd gymhwyso.

# Cyfweliad â Chadeirydd y Bwrdd Sicrhau Ansawdd: Yr Athro Karen Bryan



**PROFFIL**

Yr Athro Karen Bryan yw Is-ganghellor Prifysgol York St John. Arferai fod yn Ddirprwy Is-ganghellor (Academaidd) ym Mhrifysgol Greenwich.

Cyn hynny roedd yn Ddirprwy Is-ganghellor ar gyfer Ymgysylltu Rhanbarthol a Deon y Gyfadran Iechyd a Llesiant ym Mhrifysgol Sheffield Hallam, a bu'n dal swyddi academaidd ym Mhrifysgol Surrey a Choleg Prifysgol Llundain.

Penodwyd yr Athro Bryan yn Gadeirydd Pwyllgor Asesu Bwrdd Cofrestru Cyfryngwyr y Cynllun Cyfryngwyr Tystion yn 2003, a ad-drefnwyd i ffurfio'r Bwrdd Sicrhau Ansawdd yn 2009.

## Sut wnaethoch chi glywed am y Cynllun Cyfryngwyr Tystion ac ers faint rydych chi wedi bod yn ymwneud â'r Cynllun?

Yn 2003 deuthum yn Gadeirydd Pwyllgor Asesu'r Bwrdd Cofrestru Cyfryngwyr, sef rhagflaenydd y Bwrdd Sicrhau Ansawdd. Cefais wahoddiad gan Goleg Brenhinol y Therapyddion Lleferydd ac Iaith (RCSLT) i gyflwyno CV er mwyn dod yn aelod. Yna gofynnodd y Swyddfa Gartref i'r RCSLT a fyddwn i'n cadeirio'r pwyllgor, a derbyniais y cynnig. Felly dyna sut y dechreuais i ymwneud â'r Cynllun.

Doeddwn i ddim yn gwybod llawer am y Cynllun ar yr adeg y gofynnwyd i mi fod yn aelod o Bwyllgor Asesu'r Bwrdd Cofrestru Cyfryngwyr – roedd yn ddatblygiad diweddar iawn. Roeddwn i wedi clywed drwy'r RCSLT bod y Llywodraeth yn bwriadu cyflwyno cynllun newydd arloesol i gefnogi dioddefwyr a thystion bregus. Roedd gen i ddiddordeb mawr yn y maes hwn.

Roedd bod yn Gadeirydd Pwyllgor Asesu'r Bwrdd Cofrestru Cyfryngwyr yn golygu fy mod hefyd yn aelod o bwyllgor llywio'r cyfryngwyr rhwng 2003 a 2008. Yn 2009 gofynnodd y Weinyddiaeth Gyfiawnder i mi fod yn Gadeirydd y Bwrdd Sicrhau Ansawdd, yna yn 2014 gofynnodd y Bwrdd Cofrestru Cyfryngwyr a fyddai'n bosibl i Gadeirydd y Bwrdd Sicrhau Ansawdd gael ei gynrychioli yn y Bwrdd Cofrestru Cyfryngwyr.

## Beth wnaeth eich denu i ymuno â'r Bwrdd Sicrhau Ansawdd?

Pan glywais i am y Cynllun am y tro cyntaf, roeddwn i'n gweithio ym maes seiciatreg fforensig. Yn ystod y cyfnod hwn, roeddwn i'n gweithio gyda llawer o bobl a oedd â phroblemau iechyd meddwl difrifol a pharhaol. Roedd llawer o'r bobl hyn yn dod i gysylltiad â'r system cyfiawnder troseddol yn aml, felly roeddwn yn ymwybodol iawn o'r anawsterau real a oedd gan rai o'r bobl hyn o ran deall cwestiynau, dweud eu stori a rhoi tystiolaeth.

O ganlyniad i'm gwaith clinigol deuthum i ddeall pwysigrwydd y Cynllun a'r gwahaniaeth cadarnhaol iawn y gallai ei wneud. Roeddwn i hefyd yn meddwl ei fod yn ddatblygiad diddorol ac arloesol yn y system gyfiawnder, ac roeddwn yn awyddus iawn i gyfrannu tuag ato.

## Sut mae'r Bwrdd Sicrhau Ansawdd wedi newid a datblygu yn ystod y blynyddoedd diwethaf?

Yn 2008 cafodd Pwyllgor Asesu'r Bwrdd Cofrestru Cyfryngwyr ei roi o'r neilltu, ac yn 2009 cyflwynodd y Weinyddiaeth Gyfiawnder y Bwrdd Sicrhau Ansawdd newydd wrth i ystod a nifer yr achosion gynyddu ar ôl rhoi'r Cynllun ar waith yn genedlaethol. Golygai hyn fod ein ffocws yn ehangu y tu hwnt i recriwtio Cyfryngwyr Cofrestredig newydd â'r sgiliau iawn, i fonitro safonau ymarfer a datblygiad proffesiynol parhaus yn fwy gweithredol. Wrth gwrs, rhaid i sicrhau ansawdd bob amser fod yn gymesur â risg; wrth i ni gynyddu'n prosesau sicrhau ansawdd rydym bob amser wedi cael ein harwain gan y farn y dylent fod mor ysgafn eu cyffyrddiad ag sy'n bosibl.

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae'r Bwrdd Sicrhau Ansawdd wedi canolbwyntio ar fod yn fwy strategol ac ar reoli'r risgiau newydd sy'n gysylltiedig â chynllun sy'n tyfu'n gyflym. Wrth wneud hynny, rydym wedi ceisio ehangu ystod y mecanweithiau sicrhau ansawdd, ynghyd â recriwtio aelodau newydd i ymgymryd â rolau penodol. Golyga'r datblygiadau hyn fod gan y Bwrdd bellach dalentau a phrofiad amrywiol sy'n ein rhoi mewn sefyllfa dda i reoli sicrwydd ansawdd wrth i'r Cynllun Cyfryngwyr Tystion ddal i dyfu.

## Beth yw eich cefndir proffesiynol a pha sgiliau sydd gennych i'w cynnig i'r gwaith o sicrhau ansawdd y Cynllun Cyfryngwyr Tystion?

Rwy'n Therapydd Iaith a Lleferydd. Rwy'n dal yn gofrestredig, ac roeddwn yn gwneud gwaith clinigol rheolaidd tan 2017. Rwyf wedi gweithio gydag ystod eang o bobl, o blant i oedolion ag anhwylderau niwrolegol caffaeledig, dementia a chlefydau dirywiol eraill. Yn fwy diweddar rwyf wedi gweithio ym maes seiciatreg fforensig, gan gynnwys gweithio gyda phobl sydd â phroblemau iechyd meddwl mawr iawn. Roedd y gwaith ymchwil a wneuthum yn ddiweddar yn canolbwyntio ar anawsterau cyfathrebu ymhlith troseddwyr ifanc.

Drwy fy ngwaith fel therapydd iaith a lleferydd rwyf wedi datblygu llawer o sgiliau yn ymwneud â'r heriau y mae pobl sydd ag anawsterau cyfathrebu'n eu hwynebu pan mae angen iddynt gymryd rhan mewn prosesau cymhleth sy'n cael eu cyfryngu'n eiriol. Mae'r rhain yn anodd ar y gorau, ond os oes gennych anhawster cyfathrebu mawr maent yn dipyn o her. Am gyfnod roeddwn hefyd yn aelod o Gyngor y Proffesiynau Iechyd a Gofal, lle datblygais ddealltwriaeth dda o drefniadau sicrhau ansawdd a sicrhau gwerth am arian.

## Pa agwedd ar gadeirio'r Bwrdd Sicrhau Ansawdd sy'n rhoi'r boddhad mwyaf i chi?

Clywed am y canlyniadau cadarnhaol iawn y mae Cyfryngwyr Cofrestredig yn eu cael yn eu gwaith, gan ddefnyddwyr gwasanaeth neu gan y cyfryngwyr eu hunain.

Mae gennyf brofiad personol o argymell cymorth cyfryngwyr yn ystod fy ngwaith clinigol, ac mae bob amser yn wych gweld â'ch llygaid eich hun yr effaith hynod gadarnhaol y mae cyfryngwyr yn ei gael wrth alluogi pobl i gyfathrebu a chyflawni eu nodau.

## O safbwynt sicrhau ansawdd, pa gyngor fyddech chi'n ei roi i Gyfryngwyr Cofrestredig ac i unrhyw un sydd â diddordeb mewn bod yn Gyfryngwr Cofrestredig?

O ran pobl sydd â diddordeb mewn bod yn Gyfryngwr Cofrestredig: darllenwch y canllawiau'n ofalus iawn.

Mae llawer o bobl sy'n ymgeisio ac sy'n aflwyddiannus yn meddwl bod y rôl yn ymwneud yn bennaf â rhoi cefnogaeth i'r unigolyn y maen nhw'n ei helpu. Mae'n bwysig iawn sylweddoli mai dyletswydd y cyfryngwr yw gwasanaethu'r llys neu'r heddlu, ac mai hwyluso cyfathrebu yw ei rôl, yn hytrach na rhoi cefnogaeth gyffredinol i dystion drwy gydol y broses gyfiawnder. Byddwn yn cynghori pobl i ymchwilio'n drylwyr i'r rôl cyn ymgeisio, a darganfod a ydynt yn addas i'r swydd.

O ran Cyfryngwyr Cofrestredig wrth eu gwaith: byddwn yn dweud gweithiwch o fewn eich set o sgiliau. Ar wahân i hynny, dydw i ddim yn meddwl bod arnyn nhw angen cyngor gen i; maen nhw i gyd yn gwneud gwaith gwych ac yn eiriolwyr cadarnhaol iawn i'r Cynllun.

# Cyfweliad â Chyfryngwr Cofrestredig: Dr Brendan O'Mahony



**PROFFIL**

Mae Dr Brendan O'Mahony yn Seicolegydd Fforensig sydd wedi'i gofrestru gyda HCPC.

Cymhwysodd fel Cyfryngwr Cofrestredig yn 2007 ac mae'n arbenigo mewn achosion lle nodir ar y ffurflen gyfeirio bod naill ai anabledd deallusol bach/cymedrol, anhwylder personoliaeth neu anawsterau iechyd meddwl yn effeithio ar allu unigolyn i gyfathrebu.

## Ers faint rydych chi wedi bod yn Gyfryngwr Cofrestredig?

Dros 12 mlynedd a hanner. Mi wnes i ymgeisio ym mis Medi 2007 a chefais fy rhoi ar y gofrestr yn ffurfiol ym mis Tachwedd y flwyddyn honno.

## Sut wnaethoch chi glywed am y Cynllun Cyfryngwyr Tystion a beth wnaeth i chi ymgeisio?

Mi wnes i gyfarfod un o ymchwilwyr y Swyddfa Gartref ym mlynyddoedd cynnar y ganrif hon a dod yn ymwybodol o brosiect yn ystyried tystion bregus a'r posibilrwydd bod angen cyfryngwyr. Yn 2007 mi wnes i ymateb i hysbyseb mewn bwletin penodiadau seicoleg.

Y ffaith fod gen i brofiad blaenorol perthnasol wnaeth fy nenu i at y swydd. Roeddwn i wedi bod yn gweithio yn yr heddlu, ac wedi treulio 10 mlynedd gyda'r Gwasanaeth Heddlu Metropolitanaidd. Yn ystod y cyfnod hwn, roeddwn wedi treulio pedair blynedd yn hyfforddi swyddogion i gynnal cyfweliadau ymchwiliol. Yna cwblheais radd Meistr mewn Seicoleg Fforensig, gan archwilio theori ac ymchwil sy'n gysylltiedig â thystion bregus, i ategu fy mhrofiad ymarferol. Pan welais yr hysbyseb am Gyfryngwyr Cofrestredig roeddwn yn gweithio mewn ysbyty diogelwch canolig gyda chleifion a oedd yn cael eu cadw dan y Ddeddf Iechyd Meddwl. Roedd ganddynt anableddau deallusol, ac roedd rhai ohonynt wedi'u cael yn euog o droseddau treisgar neu rywiol. Roedd gan y cleifion hyn hanes o ymddygiad troseddol, ond roedd rhai ohonynt hefyd yn ddioddefwyr troseddau.

Roedd y rhaglen trin troseddwyr rhyw, a oedd yn gweithio mewn grwpiau, yn cael ei haddasu ar y pryd ar gyfer cleifion ag anabledd deallusol neu ddatblygiadol, ac roedd llawer o luniau'n cael eu defnyddio i helpu cleifion i gyfathrebu. Rwy'n cofio meddwl pan ymunais â'r tîm ei bod yn anodd cofio pob llun ac adroddiad darluniadol o'r naill wythnos i'r llall. Bûm yn meddwl ai dyma'r ffordd orau / yr unig ffordd o hwyluso cyfathrebu, a thybed a oedd hwyluswyr wedi bod yn annog gormod o ddefnydd o luniau yn hytrach na defnyddio (ac addasu) mwy o iaith lafar ac ysgrifenedig er mwyn diwallu anghenion unigolion.

Mae'n bosibl fy mod yn un o'r cyfryngwyr cyntaf a oedd wedi hyfforddi fel seicolegydd i ymuno â'r cynllun. Nid oedd yn ymddangos bod llawer o bobl a oedd yn gweithio ym maes seicoleg yn cael eu denu at y swydd. Rwy'n meddwl bod fy nghefndir yn yr heddlu a'r ffaith fy mod i'n gyfarwydd â phrosesau'r heddlu a'r llysoedd yn golygu o bosibl fy mod i'n teimlo'n fwy cyfforddus nag y byddai seicolegwyr eraill â gweithio yn y rhan hon o'r system cyfiawnder troseddol fel Cyfryngwr Cofrestredig.

## Beth yw eich cefndir proffesiynol a pha sgiliau sydd gennych i'w cynnig i'ch gwaith fel Cyfryngwr Cofrestredig?

Oherwydd fy nghefndir yn yr heddlu a'm profiad o ddarparu hyfforddiant mewn cyfweliadau ymchwiliol roedd gen i wybodaeth dda am fframwaith cyfweliadau ymchwiliol yr heddlu. Gwyddwn sut y byddai fy sgiliau cyfryngwr yn rhyngweithio â chyfweliadau'r heddlu ac â chwestiynu yn y llys. Gan fy mod yn deall prosesau'r heddlu roeddwn yn deall beth yw'r ffordd orau o weithio gyda'r heddlu, ac nid oeddwn yn cael fy nrysu gan bethau fel gwaith shifftiau'r heddlu, sy'n gallu bod yn rhwystr i gyfryngwyr ar y dechrau wrth iddynt ddod i arfer â sefydlu a chadw cysylltiad â'r heddlu. Roedd y ffaith fy mod wedi rhoi tystiolaeth yn y llys fy hun yn ddefnyddiol – er mod i'n gallu ymdopi â hynny, roeddwn i'n dal wedi profi'r rhwystredigaeth o gael fy 'arwain' fel tacteg yn y broses groesholi a'r ffaith nad oedd y broses yn fy ngalluogi i roi fy nhystiolaeth orau oni bai fy mod yn bendant.

Roedd fy nghefndir yn yr heddlu hefyd yn ddefnyddiol wrth ysgrifennu adroddiadau a chyfathrebu. Roeddwn wedi cael fy nysgu i fod yn fyr, yn gywir ac yn glir, ac rwy'n dal i geisio cadw hyn mewn cof. Roedd fy mhrofiad blaenorol hefyd yn golygu fy mod yn gallu sefyll o flaen pobl yn hyderus a chyfathrebu – mae sefyll yn y llys yn eich Gwrandawiad Rheolau Sylfaenol cyntaf gyda bargyfreithwyr a barnwr a bod yn hyderus yn dipyn o beth.

Gan fy mod wedi gweithio ym maes seicoleg fforensig mae gennyf brofiad o weithio gyda chleientiaid sydd ag anghenion amrywiol – anableddau deallusol, anhwylderau meddyliol ac anhwylderau personoliaeth – ac roeddwn eisoes yn gallu defnyddio cymhorthion iaith i gyfathrebu. Roeddwn hefyd yn gyfarwydd â sefyllfaoedd y mae angen eu rheoli'n ofalus iawn, ac nid yw pobl sydd ag ymddygiad anodd, er enghraifft ymddygiad ymosodol, yn codi ofn arnaf. Roedd fy ngyrfa yn yr heddlu ac ym maes seicoleg yn galw am empathi ac amynedd, ac mae'r rhain yn hanfodol wrth gyfryngu.

Roedd gennyf wybodaeth dda am ddulliau o asesu lefelau gweithrediad ac amhariad gwybyddol – cof gweithredol, cyflymder prosesu gwybodaeth ac yn y blaen, yn ogystal â'r sgiliau a'r profiad i sefydlu cysylltiad â phobl fregus yn gyflym. Mae'n hanfodol eich bod yn ennyn ymddiriedaeth rhywun er mwyn gwneud asesiad a sicrhau cyfweliad llwyddiannus – Rwy'n dda am wneud hyn – dydw i ddim yn siŵr iawn pam – oherwydd fy mhrofiad efallai, a dydw i ddim yn siŵr ydy sefydlu cysylltiad go iawn yn rhywbeth hawdd i'w ddysgu.

## Pa achos yw'r un mwyaf heriol rydych wedi helpu gydag ef?

Cefais asesiad anodd iawn gyda dyn ifanc a oedd â hanes cymhleth o drawma a datgysylltiad. Roedd yn clywed lleisiau ac yn cael ôl-fflachiadau, ac roedd ganddo hanes o hunan-niweidio, ynghyd ag ymddygiad ymosodol a bygythiol pan oedd yn orbryderus. Roedd ceisio sefydlu cysylltiad ac ymddiriedaeth yn broses araf iawn gan nad oedd yn teimlo ei fod yn ddiogel ac y gallai gymryd rhan mewn unrhyw sesiynau gyda mi. Cawsom dri ymweliad a thair ymgais i sefydlu cysylltiad, ac yn un o'r rhain allwn i ddim ei gadw yn yr ystafell am fwy na 15 munud. Dechreuais drwy gyflwyno technegau sylfaenol i geisio lleihau ei orbryder. Roedd yn rhaid cynllunio'r amgylchedd ar gyfer y sesiynau hyn yn ofalus er mwyn ei helpu i deimlo'n ddiogel ac er mwyn sicrhau y gallai adael yr ystafell yn gyflym pe bai angen. Roedd yn anodd iawn. Roeddwn i wedi rhoi cymorth cyfathrebu iddo a'i wylio'n ei rwygo'n ddarnau bach, oherwydd ei fod yn teimlo mor bryderus. Gadawodd y broses cyn i mi allu cwblhau'r asesiad cyfathrebu. Ro'n i'n teimlo mod i wedi methu, ac er mod i wedi trio'n galed iawn, doedd hynny ddim yn ddigon i'r person ifanc hwn. Hyd heddiw, dydw i ddim yn gwybod beth roedd o'n mynd drwyddo, o ran y lleisiau roedd yn eu

clywed. Ro'n i'n chwilio am ddatgysylltiad ac ati. Weithiau, ni waeth pa mor galed rydych chi'n trio, dydy pethau ddim yn gweithio, ac rydych chi'n teimlo na fedrwch chi wneud dim. Weithiau dydy pobl ddim yn barod ac mae arnyn nhw angen mwy o amser i allu cyfathrebu. Gallwn wneud ein gorau glas, ond weithiau dydy hynny hyd yn oed ddim yn cyflawni'r hyn y byddem yn hoffi ei gyflawni.

## Pa agwedd ar eich gwaith fel Cyfryngwr Cofrestredig sy'n rhoi'r boddhad mwyaf i chi?

Heb os nac oni bai, pan fydd tyst bregus yn llwyddo i roi adroddiad, a minnau'n gwybod na fyddai hynny'n bosibl heb fy nghymorth i. Enghraifft o hyn oedd tyst a oedd wedi methu â rhoi adroddiad i'r heddlu mewn cyfweliad ABE y llynedd. Mi wnes i gynnal asesiad cyfathrebu a siarad am strategaethau i addasu dulliau cyfathrebu. O ganlyniad i'r asesiad cyfathrebu a'r strategaethau llwyddodd i roi ei hochr hi o'r stori i'r heddlu. Diolchodd i mi ar y diwedd a dywedodd na fyddai hynny wedi bod yn bosibl heb fy nghymorth i.

Rwy'n cael boddhad hefyd pan fydd bargyfreithiwr yn diolch i mi am addasu cwestiynau, gan ddweud bod hynny wedi bod o gymorth, ac o weld y ffordd y mae cydnabyddiaeth o rôl y cyfryngwr wedi newid ers i mi ddechrau gweithio yn y maes yn 2007. Erbyn hyn mae Cyfryngwyr Cofrestredig yn rhan bwysig o'r system gyfiawnder, ac mae gweld hyn yn digwydd wedi rhoi llawer o foddhad i mi. Rwy'n cael boddhad o'r asesiadau cyfathrebu ac o hwyluso cyfathrebu, ond hefyd o ymwneud â meysydd ehangach, er enghraifft ymchwil academaidd a darparu hyfforddiant.

## Pa gyngor fyddech chi'n ei roi i rywun sy'n cychwyn ar ei yrfa fel Cyfryngwr Cofrestredig?

Yn bennaf, gweithio o fewn eich set sgiliau, bod yn hyblyg, ond cadw o fewn y ffiniau proffesiynol bob amser. Mae bod yn ddiduedd, ac yn amhleidiol yn hanfodol.

Fel cyfryngwr, nid ydych yn gyfrifol am 'drwsio' y rhannau o'r system gyfiawnder sydd y tu allan i'ch cylch gorchwyl. Mae angen i chi wybod ble mae'r ffiniau yn y system cyfiawnder troseddol a beth yw cyfrifoldebau partïon eraill yn y system.

Defnyddiwch eich mentor wrth ddysgu gweithio gyda'r system cyfiawnder troseddol. Gofynnwch am gyngor. Fel cyfryngwr, chi sy'n gyfrifol am eich argymhellion a'ch barn glinigol, felly peidiwch â disgwyl cael 'yr ateb' gan eich cymheiriaid, oherwydd chi sy'n gyfrifol am y cyngor rydych yn ei roi, a dyna beth rydych chi'n cael eich talu am ei wneud.

Peidiwch â bod yn rhy llym â chi eich hun wrth edrych yn ôl, os ydych yn meddwl eich bod wedi methu ymyriad mewn llys neu yn ystod cyfweliad ABE. Rhaid i chi adael i bethau fynd, dysgu o'r profiad, bod yn ymwybodol ohono, ond peidio â bod yn rhy llym â chi eich hun, oherwydd bydd hynny'n ymyrryd â'ch gwaith yn y dyfodol.

## Beth yw'r cyngor mwyaf defnyddiol a gawsoch yn ystod eich cyfnod fel Cyfryngwr Cofrestredig?

Mae'n fwy o sylw nag o gyngor - sylw a wnaethpwyd flynyddoedd yn ôl gan fargyfreithiwr mewn llys. Gofynnodd yn dawel i mi beidio â gwneud iddo ymddangos yn ddiddeall o flaen y barnwr a phobl eraill yn y llys. Credai ar y pryd y gallwn godi cywilydd arno – mae'r geiriau wedi gwneud i mi sylweddoli bod angen i ni fod yn ymwybodol o anghenion a sensitifrwydd gweithwyr proffesiynol eraill, wrth fod yn bendant fel cyfryngwr. Cadwch y darlun mwy mewn golwg, a chewch fwy o barch.

# Rhan Dau: Dadansoddi Perfformiad 2019/20

## Methodoleg

Mae'r NCA yn casglu data ar geisiadau am Gyfryngwyr Cofrestredig. Mae'r data hyn yn darparu trosolwg cynhwysfawr o'r gwasanaethau a ddarparwyd gan y Cynllun drwy gydol 2019/20 a dyma'r brif ffynhonnell ddata ar gyfer y bennod dadansoddi perfformiad.

Mae'r data'n cynnwys:

- **Cyfanswm y ceisiadau am Gyfryngwyr Cofrestredig**
- **Ceisiadau yn ôl bregusrwydd tystion**
- **Ceisiadau yn ôl oed y tyst (plentyn neu oedolyn)**
- **Ceisiadau yn ôl y math o dyst**
- **Ceisiadau yn ôl defnyddiwr gwasanaeth (yr heddlu neu'r CPS)**
- **Adborth gan ddefnyddwyr gwasanaeth yn 2019/20**

Crynhoir y data am y cyfnod o 1 Ebrill 2019 hyd 31 Mawrth 2020. Mae hyn yn cynnwys newidiadau yn nifer y ceisiadau a newidiadau yn ymwneud â dosbarthiad y ceisiadau ar draws bregusrwydd, oed tystion, mathau o dystion a defnyddwyr gwasanaeth, yn ogystal â nifer y ceisiadau a gafodd eu paru, y ceisiadau na chawsant eu paru a cheisiadau a ganslwyd. Mae'r rhan hon hefyd yn trafod adborth gan ddefnyddwyr gwasanaeth, ar sail pedwar maen prawf asesu, o dros 2,700 o achosion yn ymwneud â dioddefwyr a thystion yr erlyniad lle derbyniwyd adborth.

Er mwyn edrych ar dueddiadau ehangach yn y Cynllun a gosod meincnodau i ddehongli data 2019/20 yn eu herbyn, bydd y rhan hon yn cyfeirio at ddata'r Gwasanaeth Paru o 2018/19 (1 Ebrill 2018 hyd 31 Mawrth 2019) a 2017/18 (1 Ebrill 2017 hyd 31 Mawrth 2018). Defnyddiwyd data o'r un cyfnodau blynyddol yn 2010-2017 hefyd lle'r oedd yn briodol, i roi cyd-destun hirdymor. Mesurir pob cyfeiriad at gynnydd a gostyngiad yn nhermau newid canrannol.[3]

## Crynodeb

Yn 2019/20, mae cyfradd y ceisiadau a barwyd wedi cynyddu ar draws pob categori a gofnodwyd am yr ail flwyddyn yn olynol. Gwnaethpwyd cyfanswm o 6,907 o geisiadau a chafodd 98.3% (6,789) o'r rhain eu paru'n llwyddiannus. Mae hyn yn gynnydd o 2.2% yng nghanran y ceisiadau a barwyd er 2018/19 ac mae'n dangos bod mwy o Gyfryngwyr Cofrestredig ar gael yn dilyn ymgyrchoedd recriwtio rheolaidd y Weinyddiaeth Gyfiawnder drwy gydol y cyfnod.

[3] Yn hytrach na newid pwynt canran.

Ar y cyfan, mae nifer y ceisiadau am Gyfryngwyr Cofrestredig wedi cynyddu 10% er 2018/19, gan godi o 6,276 i 6,907 yn 2019/20 – cynnydd o 631 geisiadau. Dyma'r nifer mwyaf o geisiadau am Gyfryngwyr Cofrestredig mewn cyfnod o 12 mis ers cyflwyno'r Cynllun yn genedlaethol yn 2008. Mae'r cynnydd cyffredinol i'w weld ym mhob un ond un o'r categorïau bregusrwydd. Mae'r ceisiadau ar gyfer oedolion ag anableddau corfforol wedi gostwng 11.4% (51 yn llai o geisiadau o gymharu â 2018/19). Mae Ffigur 4 a Thabl 1 (gweler tudalennau 27 a 28) yn dangos cynnydd arwyddocaol yng nghanran y ceisiadau ar gyfer y chwe chategori bregusrwydd arall, yn amrywio o 6% i 32%. Ceisiadau ar gyfer plant ag anableddau dysgu a phlant heb fregusrwydd cydredol sydd wedi cyfrannu fwyaf tuag at y cynnydd, gan godi 19.4% (287 o geisiadau) a 9.2% (242 o geisiadau) yn y drefn honno.

Ceisiadau gan yr heddlu yw'r rhan fwyaf o'r ceisiadau gan ddefnyddwyr gwasanaeth o hyd, fel y gwelir yn Ffigur 10 (gweler tudalen 36). Mae ceisiadau gan yr heddlu wedi cynyddu 14.6% (743 yn fwy o geisiadau o gymharu â 2018/19) i gyfanswm o 5,832 o geisiadau – y nifer mwyaf eto. Mae ceisiadau gan y CPS wedi gostwng 9.1% (107 yn llai o geisiadau o gymharu â 2018/19).

Mae'r adborth gan ddefnyddwyr gwasanaeth am Gyfryngwyr Cofrestredig wedi parhau'n gadarnhaol drwy gydol 2019/20, â 99.8% o'r holl ymatebion yn cael eu cofnodi fel rhai 'rhagorol', 'mwy na boddhaol' neu 'foddhaol'.

## Ceisiadau wedi'u Canslo

Gellir canslo cais am Gyfryngwr Cofrestredig mewn amgylchiadau megis pledio'n euog yn gynnar, y dioddefwr yn tynnu cwyn yn ôl, neu os bydd y tyst yn methu neu ddim yn dymuno bwrw ymlaen mwyach am unrhyw reswm (e.e. rhesymau meddygol).

## Ceisiadau Heb eu Paru

Mae ceisiadau heb eu paru yn cyfeirio at achosion prin lle na ellid dyrannu Cyfryngwr Cofrestredig i achos yn dilyn cais am gymorth Cyfryngwr Cofrestredig. Gallai cais am Gyfryngwr Cofrestredig beidio â chael ei baru mewn amgylchiadau lle nad yw'r Tîm Cyfryngwyr Tystion yn gallu darparu Cyfryngwr Cofrestredig o fewn y ffrâm amser a bennwyd gan y defnyddiwr gwasanaeth, os bydd pob Cyfryngwr Cofrestredig wedi gwrthod derbyn achos, neu os nad oes Cyfryngwyr Cofrestredig ar gael ar ddyddiad(au) treial. Mewn amgylchiadau prin iawn mae'n bosibl y bydd y Tîm Cyfryngwyr Tystion yn methu â darparu Cyfryngwr Cofrestredig sydd â'r sgiliau angenrheidiol i ymgymryd ag achos cymhleth.


Lle nad yw'n bosibl paru cais, bydd y Cynghorwr Tystion Bregus Cenedlaethol yn rhoi cyngor arbenigol i ddefnyddwyr gwasanaeth. Caiff ei ddefnyddio'n aml i gynorthwyo'n bersonol.

Os bydd y llys yn cytuno i ohirio, bydd y cais yn dal i gael ei gofnodi fel un sydd heb ei baru a chaiff cais newydd (yn adlewyrchu dyddiad newydd y treial) ei gynhyrchu.

# Cyfanswm y Ceisiadau am Gyfryngwyr Cofrestredig

Gwnaethpwyd cyfanswm o 6,907 o geisiadau am Gyfryngwr Cofrestredig drwy'r Cynllun yn 2019/20, cyfartaledd o 576 o geisiadau y mis.

Mae hyn yn gynnydd o 10% yn nifer y ceisiadau (631 yn fwy) er 2018/19, pan wnaethpwyd 6,276 o geisiadau. Mae hefyd yn gynnydd o 483% (5,723 yn fwy) er 2010/11, pan wnaethpwyd 1,184 o geisiadau. Mae Ffigur 1 yn dangos y newid yng nghyfanswm y ceisiadau ers dechrau'r degawd blaenorol.




**Ffigur 1**


## Newid yn Gyffredinol: Cyfraddau Paru Llwyddiannus

O'r 6,907 o geisiadau a dderbyniwyd yn 2019/20, cafodd 98.3% (6,789) eu paru, gyda 0.6% (44) heb eu paru ac 1.1% (74) wedi eu canslo.[4]


Mae hyn yn gynnydd o 2.2% yn y ganran paru llwyddiannus er 2018/19 (96.2% o geisiadau wedi'u paru) ac yn gynnydd o 5.6% er 2017/18 (93.1% o geisiadau wedi'u paru).[5]

[4] Ffigur 2. *Data Gwasanaeth Paru'r NCA 2019/20*

[5] Ffigur 3. *Data Gwasanaeth Paru'r NCA 2017 – 2020*




**Ffigur 2**




**Ffigur 3**

# Ceisiadau yn ôl Bregusrwydd Tystion

Mae saith categori bregusrwydd y gellir eu cofnodi ar ffurflenni Cais am Wasanaeth[6] Cyfryngwr Cofrestredig i nodi anghenion tyst:

- **Plentyn heb Fregusrwydd Cydredol**
- **Plentyn ag Anhwylder Meddyliol**
- **Plentyn ag Anabledd Dysgu**
- **Plentyn ag Anabledd Corfforol**
- **Oedolyn ag Anhwylder Meddyliol**
- **Oedolyn ag Anabledd Dysgu**
- **Oedolyn ag Anabledd Corfforol**

Gan fod modd nodi mwy nag un bregusrwydd ar ffurflen Cais am Wasanaeth, mae'r ffigurau cyfunol yn yr adran hon yn fwy na'r ffigurau ar gyfer cyfanswm y ceisiadau uchod.

## Diffiniadau ac Enghreifftiau

Nid yw'r enghreifftiau a nodir yn y tabl isod yn cynnwys pob cyflwr. Dim ond rhai o'r cyflyrau a all effeithio ar allu person i gyfathrebu'n effeithiol yw'r rhain.

Mae'r meini prawf cymhwysedd ar gyfer cymorth Cyfryngwr Cofrestredig (fel y nodir yn adran 16 o Ddeddf Cyfiawnder Ieuenctid a Thystiolaeth Droseddol 1999) i'w gweld ar dudalen 6 o'r adroddiad hwn.

| Math o Fregusrwydd | Diffiniad/Enghreifftiau syml |
|---|---|
| **Plentyn heb Fregusrwydd Cydredol** | Yn cyfeirio at blant sydd â hawl i Gyfryngwr Cofrestredig gan mai eu hunig fregusrwydd yw'r ffaith eu bod dan 18 oed. |
| **Anhwylder Meddyliol** | Unrhyw anhwylder neu anabledd meddyliol.[7]<br>Gall enghreifftiau gynnwys y canlynol, ond nid ydynt yn gyfyngedig iddynt: gorbryder; iselder; anhwylder affeithiol deubegynol; anhwylder gorfodaeth obsesiynol; anhwylder personoliaeth; sgitsoffrenia; dementia (gan gynnwys clefyd Alzheimer). |
| **Anabledd Dysgu** | Yn effeithio ar y ffordd y mae person yn deall gwybodaeth neu sut y mae'n cyfathrebu. Golyga hyn y gall gael anhawster: i ddeall |


[6] I wneud cais am gymorth Cyfryngwr Cofrestredig, bydd y defnyddiwr gwasanaeth (yr heddlu neu'r CPS fel arfer) yn cyflwyno ffurflen Cais am Wasanaeth i Dîm Cyfryngwyr Tystion yr NCA. Mae pob cais yn nodi'r categorïau bregusrwydd sy'n berthnasol i bob tyst.

[7] Deddf Iechyd Meddwl 1983, Adran 1(2)

| | |
|---|---|
| | gwybodaeth newydd neu gymhleth; i ddysgu sgiliau newydd; i ymdopi'n annibynnol.[8] Gall enghreifftiau gynnwys y canlynol, ond nid ydynt yn gyfyngedig iddynt: ADHD; anhwylder sbectrwm awtistiaeth (gan gynnwys Syndrom Asperger); dysarthria; oedi/anhwylder datblygu iaith; mudandod dethol. |
| **Anabledd Corfforol** | Nam corfforol sy'n cael effaith sylweddol a hirdymor ar allu person i gyflawni gweithgareddau arferol o ddydd i ddydd.[9] Gall enghreifftiau gynnwys y canlynol, ond nid ydynt yn gyfyngedig iddynt: atal dweud; anhwylder llais (gan gynnwys laryngectomi a thraceotomi); anaf i'r ymennydd neu'r pen (gan gynnwys strôc); anhwylderau niwrolegol a dirywiol (gan gynnwys clefyd motor niwron a chlefyd Parkinson); parlys yr ymennydd. |

## Dadansoddiad o'r Categorïau Bregusrwydd a Nodwyd ar Ffurflenni Cais am Wasanaeth

O'r holl geisiadau am Gyfryngwyr Cofrestredig yn 2019/20, roedd 35% ar gyfer plant heb fregusrwydd cydredol, sy'n golygu mai dyma'r categori bregusrwydd a nodir amlaf ar ffurflenni cais am wasanaeth. Yn dilyn hyn roedd plant ag anableddau dysgu â chanran o 22%, oedolion ag anableddau dysgu â chanran o 20%, oedolion ag anhwylder meddyliol â chanran o 13%, oedolion ag anableddau corfforol â chanran o 5%, plant ag anhwylder meddyliol â chanran o 4% a phlant ag anableddau corfforol â chanran o 1%.




**Ffigur 4**

[8] Y Gwasanaeth Iechyd Gwladol, 2018, (www.nhs.uk/conditions/learning-disabilities/)
[9] Deddf Cydraddoldeb 2010, Adran 6(1)

# Newid ar Draws yr Holl Geisiadau

Er 2018/19, cofnodwyd cynnydd yng nghyfanswm y ceisiadau ar gyfer pob categori bregusrwydd ond un (Oedolyn – Anabledd Corfforol).[10]


O ran dioddefwyr a thystion sy'n blant, cynyddodd nifer y ceisiadau ar gyfer anhwylderau meddyliol 32% (78 yn fwy o geisiadau), cynyddodd nifer y ceisiadau ar gyfer anableddau corfforol 20.9% (14 yn fwy o geisiadau), cynyddodd nifer y ceisiadau ar gyfer anableddau dysgu 19.4% (287 yn fwy o geisiadau), a chynyddodd nifer y ceisiadau ar gyfer plant heb fregusrwydd cydredol 9.2% (242 yn fwy o geisiadau).

O ran dioddefwyr a thystion sy'n oedolion, cynyddodd nifer y ceisiadau ar gyfer anhwylderau meddyliol 13.1% (119 yn fwy o geisiadau) a chynyddodd nifer y ceisiadau ar gyfer anableddau dysgu 6.1% (94 yn fwy o geisiadau). Gostyngodd nifer y ceisiadau ar gyfer oedolion ag anableddau corfforol 11.4% (49 yn llai o geisiadau).

| NEWID AR DRAWS YR HOLL GEISIADAU (BREGUSRWYDD) | | | |
|---|---|---|---|
| **Bregusrwydd** | **2018/19** | **2019/20** | **Newid er 2018/19 (%)** |
| **Plentyn (heb Fregusrwydd Cydredol)** | 2,617 | 2,859 | **+9.2** |
| **Plentyn – Anhwylder Meddyliol** | 244 | 322 | **+32** |
| **Plentyn – Anabledd Dysgu** | 1,478 | 1,765 | **+19.4** |
| **Plentyn – Anabledd Corfforol** | 67 | 81 | **+20.9** |
| **Oedolyn – Anhwylder Meddyliol** | 904 | 1,023 | **+13.1** |
| **Oedolyn – Anabledd Dysgu** | 1,532 | 1,626 | **+6.1** |
| **Oedolyn – Anabledd Corfforol** | 430 | 381 | **-11.4** |

**Tabl 1**

[10] Ffigur 4 a Thabl 1. *Data Gwasanaeth Paru'r NCA 2018 – 2020*




**Ffigur 5**

# Cyfraddau Paru Llwyddiannus

Cynyddodd canrannau'r ceisiadau a barwyd ar gyfer pob math o fregusrwydd er 2018/19.

O ran plant, gwelwyd cynnydd o 4% yn y ceisiadau a barwyd ar gyfer anhwylderau meddyliol, 3.3% ar gyfer plant heb fregusrwydd cydredol, 3% ar gyfer anableddau corfforol ac 1.2% ar gyfer anableddau dysgu.[11]


O ran oedolion, gwelwyd cynnydd o 2.4% yn y ceisiadau a barwyd ar gyfer anhwylderau meddyliol, 1.6% ar gyfer anableddau corfforol ac 1.4% ar gyfer anableddau dysgu.[12]

| NEWID MEWN CYFRADDAU PARU LLWYDDIANNUS (BREGUSRWYDD) | | | |
|---|---|---|---|
| **Bregusrwydd** | **Parwyd yn 2018/19 (%)** | **Parwyd yn 2019/20 (%)** | **Newid er 2018/19 (%)** |
| **Plentyn (heb Fregusrwydd Cydredol)** | 95.9 | 99.1 | **+3.3** |
| **Plentyn – Anhwylder Meddyliol** | 94.6 | 98.4 | **+4** |
| **Plentyn – Anabledd Dysgu** | 97.4 | 98.6 | **+1.2** |
| **Plentyn – Anabledd Corfforol** | 97 | 100 | **+3** |
| **Oedolyn – Anhwylder Meddyliol** | 93.9 | 96.2 | **+2.4** |
| **Oedolyn – Anabledd Dysgu** | 96 | 97.3 | **+1.4** |
| **Oedolyn – Anabledd Corfforol** | 96.7 | 98.2 | **+1.6** |

**Tabl 2**

11 Tabl 2, Data Gwasanaeth Paru'r NCA 2018 – 2020

12 Tabl 2, Data Gwasanaeth Paru'r NCA 2018 – 2020




**Ffigur 6**

O ran dioddefwyr a thystion sy'n blant, roedd 0.9% o'r ceisiadau ar gyfer anhwylderau meddyliol heb eu paru, yn cael ei ddilyn gan geisiadau ar gyfer plant heb fregusrwydd cydredol (0.3% heb eu paru), ceisiadau ar gyfer anableddau dysgu (0.3% heb eu paru), a cheisiadau ar gyfer anableddau corfforol lle nad oedd unrhyw geisiadau heb eu paru.

O ran dioddefwyr a thystion sy'n oedolion, roedd 1.3% o'r ceisiadau ar gyfer anhwylderau meddyliol heb eu paru, yn cael ei ddilyn gan geisiadau ar gyfer anableddau dysgu (0.9% heb eu paru), a cheisiadau ar gyfer anableddau corfforol (0.3% heb eu paru).

## PLENTYN (HEB FREGUSRWYDD CYDREDOL)

### Ceisiadau a Barwyd +3.3%

O'r 2,859 o geisiadau ar gyfer plant heb fregusrwydd cydredol, roedd 99.1% (2,832) heb eu paru, 0.3% (10) heb eu paru a 0.6% (17) wedi'u canslo.

Mae hyn yn gynnydd o 3.3% yng nghanran yr achosion a barwyd er 2018/19 (95.9% o geisiadau Plentyn heb Fregusrwydd Cydredol wedi'u paru) ac yn gynnydd o 7.5% er 2017/18 (92.2% o'r ceisiadau wedi'u paru).[13]

## PLENTYN – ANHWYLDER MEDDYLIOL

### Ceisiadau a Barwyd +4%

O'r 322 o geisiadau ar gyfer plant ag anhwylder meddyliol, roedd 98.4% (317) wedi'u paru, 0.9% (3) heb eu paru a 0.6% (2) wedi'u canslo.

Mae hyn yn gynnydd o 4% yng nghanran yr achosion a barwyd er 2018/19 (94.6% o geisiadau Plentyn – Anhwylder Meddyliol wedi'u paru) ac yn gynnydd o 5.4% er 2017/18 (93.3% o'r ceisiadau wedi'u paru).[14]

## PLENTYN – ANABLEDD DYSGU

### Ceisiadau a Barwyd +1.2%

[13] Ffigur 6, *Data Gwasanaeth Paru'r NCA 2017 – 2020*

[14] Ffigur 6, *Data Gwasanaeth Paru'r NCA 2017 – 2020*

O'r 1,765 o geisiadau ar gyfer plant ag anabledd dysgu, roedd 98.6% (1740) wedi'u paru, 0.3% (5) heb eu paru ac 1.1% (20) wedi'u canslo.

Mae hyn yn gynnydd o 1.2% yng nghanran yr achosion a barwyd er 2018/19 (97.4% o geisiadau Plentyn – Anableddau Dysgu wedi'u paru) ac yn gynnydd o 4.2% er 2017/18 (94.6% o'r ceisiadau wedi'u paru).[15]

## PLENTYN – ANABLEDD CORFFOROL

### Ceisiadau a Barwyd +3%

O'r 81 o geisiadau ar gyfer plant ag anableddau dysgu, roedd 100% (81) wedi'u paru.

Mae hyn yn gynnydd o 3% yng nghanran yr achosion a barwyd er 2018/19 (97% o'r ceisiadau Plentyn – Anableddau Corfforol wedi'u paru) ac yn gynnydd o 4.5% er 2017/18 (95.7% o'r ceisiadau Plentyn – Anableddau Corfforol wedi'u paru).[16]

## OEDOLYN – ANHWYLDER MEDDYLIOL

### Ceisiadau a Barwyd +2.4%

O'r 1,023 o geisiadau ar gyfer oedolion ag anhwylder meddyliol, roedd 96.2% (984) wedi'u paru, 1.8% (18) heb eu paru a 2.1% (21) wedi'u canslo.

Mae hyn yn gynnydd o 2.4% yng nghanran yr achosion a barwyd er 2018/19 (93.9% o'r ceisiadau Oedolyn – Anhwylder Meddyliol wedi'u paru) ac yn gynnydd o 8% er 2017/18 (89% o'r ceisiadau wedi'u paru).[17]

## OEDOLYN – ANABLEDD DYSGU

### Ceisiadau a Barwyd +1.4%

O'r 1,626 o geisiadau ar gyfer oedolion ag anabledd dysgu, roedd 97.3% (1,584) wedi'u paru, 0.9% (16) heb eu paru ac 1.6% (26) wedi'u canslo.

Mae hyn yn gynnydd o 1.4% yng nghanran yr achosion a barwyd er 2018/19 (96% o'r ceisiadau Oedolyn – Anableddau Dysgu wedi'u paru) ac yn gynnydd o 3.6% er 2017/18 (93.9% o'r ceisiadau wedi'u paru).[18]

## OEDOLYN – ANABLEDD CORFFOROL

### Ceisiadau a Barwyd +1.6%

O'r 381 o geisiadau ar gyfer plant ag anableddau dysgu, roedd 98.2% (374) wedi'u paru, 0.3% (1) heb eu paru ac 1.6% (6) wedi'u canslo.

Mae hyn yn gynnydd o 1.6% yng nghanran yr achosion a barwyd er 2018/19 (96.7% o'r ceisiadau Oedolyn – Anableddau Corfforol wedi'u paru) ac yn gynnydd o 3.7% er 2017/18 (94.7% o'r ceisiadau Oedolyn – Anableddau Corfforol wedi'u paru).[19]

---

[15] Ffigur 6, *Data Gwasanaeth Paru'r NCA 2017 – 2020*
[16] Ffigur 6, *Data Gwasanaeth Paru'r NCA 2017 – 2020*
[17] Ffigur 6, *Data Gwasanaeth Paru'r NCA 2017 – 2020*
[18] Ffigur 6, *Data Gwasanaeth Paru'r NCA 2017 - 2020*
[19] Ffigur 6, *Data Gwasanaeth Paru'r NCA 2017 – 2020*

# Ceisiadau yn ôl Oed Tystion (Plant/Oedolion)


Mae'r NCA yn cofnodi nifer y ceisiadau a wnaethpwyd ar ran oedolion a phlant:

- **Plant (dan 18 oed)**
- **Oedolion (dros 18 oed)**

## Dadansoddiad o'r Ceisiadau

O'r 6,907 o geisiadau am Gyfryngwyr Cofrestredig yn 2019/20, roedd 69% o'r ceisiadau (4,732) ar ran plant. Gwnaethpwyd y 31% arall (2,175) ar ran oedolion.[20]

**Dadansoddiad o Geisiadau (Oedolion/Plant): 2019/20**




**Ffigur 7**

## Newid ar Draws yr Holl Geisiadau

Er 2018/19, mae nifer y ceisiadau ar ran plant wedi cynyddu 12.7% (534 yn fwy o geisiadau) ac mae nifer y ceisiadau ar ran oedolion wedi cynyddu 4.7% (97 yn fwy o geisiadau).[21]

| NEWID AR DRAWS YR HOLL GEISIADAU (OED TYSTION) | | | |
|---|---|---|---|
| **Oed** | **2018/19** | **2019/20** | **Newid (%)** |
| **Plentyn** | 4,198 | 4,732 | **+12.7** |
| **Oedolyn** | 2,078 | 2,175 | **+4.7** |

**Tabl 3**

[20] Ffigur 7, Data Gwasanaeth Paru'r NCA 2019/20

[21] Tabl 3, *Data Gwasanaeth Paru'r NCA 2018 – 2020*

# Cyfraddau Paru Llwyddiannus

Er 2018/19, mae'r gyfradd paru llwyddiannus ar gyfer plant ac oedolion wedi cynyddu. Gwelwyd cynnydd o 2.5% yng nghanran y ceisiadau a barwyd ar gyfer plant, ac 1.4% ar gyfer oedolion.[22]

| NEWID MEWN CYFRADDAU PARU LLWYDDIANNUS (OED TYSTION) | | | |
|---|---|---|---|
| Oed | 2018/19 (%) | 2019/20 (%) | Newid mewn Ceisiadau a Barwyd (%) |
| **Plant** | 96.4 | 98.8 | **+2.5** |
| **Oedolion** | 95.8 | 97.1 | **+1.4** |

**Tabl 4**

## PLANT

### Ceisiadau a Barwyd +2.5%

O'r 4,732 o geisiadau ar ran plant, roedd 98.8% (4,677) wedi'u paru, 0.4% (17) heb eu paru, a'r 0.8% arall (38) wedi'u canslo.

Mae hyn yn gynnydd o 2.5% yng nghanran yr achosion a barwyd er 2018/19 (96.4% o'r ceisiadau plant wedi'u paru).[23]

## OEDOLION

### Ceisiadau a Barwyd +1.4%

O'r 2,175 o geisiadau ar ran oedolion, roedd 97.1% (2112) wedi'u paru, 1.2% (27) heb eu paru, a'r 1.2% arall (26) wedi'u canslo.

Mae hyn yn gynnydd o 1.4% yng nghanran yr achosion a barwyd er 2018/19 (95.8% o'r ceisiadau oedolion wedi'u paru).[24]

[22] Tabl 4, *Data Gwasanaeth Paru'r NCA 2018 - 2020*
[23] Tabl 4. *Data Gwasanaeth Paru'r NCA 2018 - 2020*
[24] Tabl 4. *Data Gwasanaeth Paru'r NCA 2018 - 2020*

# Ceisiadau yn ôl y Math o Dyst


Mae'r NCA yn rhannu data ceisiadau'r Gwasanaeth Paru yn ddau fath o dyst[25]:

- **Dioddefwyr**
- **Tystion yr Erlyniad**

## Dadansoddiad o'r Ceisiadau

O'r 6,907 o geisiadau am Gyfryngwyr Cofrestredig yn 2019/20, roedd 91.8% o'r ceisiadau a gofnodwyd (6,340) yn perthyn i'r categori 'Dioddefwyr'. Cafodd yr 8.2% arall (567) eu gwneud ar ran 'Tystion yr Erlyniad'.[26]

**Dadansoddiad o'r Ceisiadau (Math o Dyst): 2019/20**




**Ffigur 8**

## Newid ar Draws yr Holl Geisiadau

Er 2018/19, mae nifer y ceisiadau ar ran dioddefwyr wedi cynyddu 11.2% (636 yn fwy o geisiadau), tra mae nifer y ceisiadau ar ran tystion yr erlyniad wedi aros yr un fath fwy neu lai.[27]

| NEWID AR DRAWS YR HOLL GEISIADAU (MATH O DYST) | | | |
|---|---|---|---|
| **Math o Dyst** | **2018/19** | **2019/20** | **Newid (%)** |
| **Dioddefwyr** | 5,704 | 6,340 | **+11.2** |
| **Tystion yr Erlyniad** | 572 | 567 | **-0.8** |

**Tabl 5**

[25] Data'n deillio o ffurflenni Cais am Wasanaeth yr Heddlu a'r CPS. Nid yw ffurflenni Cais am Wasanaeth bob amser yn gwahaniaethu rhwng 'dioddefwyr' a 'thystion yr erlyniad'. Mewn termau cyfreithiol, mae dioddefwr yn ymddangos yn y llys fel tyst.

[26] Ffigur 8, Data Gwasanaeth Paru'r NCA 2019/20


[27] Tabl 5, *Data Gwasanaeth Paru'r NCA 2017 – 2020*

# Cyfraddau Paru Llwyddiannus

Er 2018/19, mae'r cyfraddau paru llwyddiannus ar gyfer y ddau fath o dyst wedi cynyddu. Mae canran y ceisiadau a barwyd ar gyfer dioddefwyr wedi cynyddu 2.3%, a'r ceisiadau a barwyd ar gyfer tystion yr erlyniad wedi cynyddu 1.4%.[28]

| NEWID MEWN CYFRADDAU PARU LLWYDDIANNUS (MATH O DYST) | | | |
|---|---|---|---|
| Math o Dyst | 2018/19 (%) | 2019/20 (%) | Newid mewn Ceisiadau a Barwyd (%) |
| **Dioddefwyr** | 96.2 | 98.4 | **+2.3** |
| **Tystion yr Erlyniad** | 96.1 | 97.4 | **+1.4** |

**Tabl 6**




**Ffigur 9**

## DIODDEFWYR

### Ceisiadau a Barwyd +2.3%

O'r 6,340 o geisiadau ar ran dioddefwyr, roedd 98.4% (6,237) wedi'u paru, 0.6% (37) heb eu paru, a'r 1% arall (66) wedi'u canslo.

Mae hyn yn gynnydd o 2.3% yng nghanran yr achosion a barwyd er 2018/19 (96.2% o'r ceisiadau dioddefwyr wedi'u paru) ac yn gynnydd o 5.4% er 2017/18 (93.4% o'r ceisiadau dioddefwyr wedi'u paru).[29]

## TYSTION YR ERLYNIAD

### Ceisiadau a Barwyd +1.4%

O'r 567 o geisiadau ar ran tystion yr erlyniad, roedd 97.4% (552) wedi'u paru, 1.2% (7) heb eu paru, a'r 1.4% arall (8) wedi'u canslo.

Mae hyn yn gynnydd o 1.4% yng nghanran yr achosion a barwyd er 2018/19 (96.1% o geisiadau tystion yr erlyniad wedi'u paru) ac yn gynnydd o 8.2% er 2017/18 (90% o geisiadau tystion yr erlyniad wedi'u paru).[30]

---

[28] Tabl 6, *Data Gwasanaeth Paru'r NCA 2017 - 2020*
[29] Ffigur 9. *Data Gwasanaeth Paru'r NCA 2017 - 2020*
[30] Ffigur 9. *Data Gwasanaeth Paru'r NCA 2017 - 2020*


# Ceisiadau yn ôl Defnyddiwr Gwasanaeth

Mae dau gategori o ddefnyddwyr gwasanaeth sydd wedi cyflwyno ceisiadau i'r NCA yn 2019/20:

- **Yr Heddlu**
- **Y CPS**

## Dadansoddiad o'r Ceisiadau

Ceisiadau gan yr heddlu oedd y rhan fwyaf (84.4%, 5,832) o'r holl geisiadau am Gyfryngwyr Cofrestredig yn 2019/20, ac roedd 15.6% o'r ceisiadau (1,075 o geisiadau) yn geisiadau gan y CPS.[31]




**Ffigur 10**

## Newid ar Draws yr Holl Geisiadau

Er 2018/19, mae nifer y ceisiadau gan yr Heddlu wedi cynyddu 14.6% (743 yn fwy o geisiadau. Mae ceisiadau gan y CPS wedi lleihau 9.1% (107 yn llai o geisiadau).[32]

| NEWID AR DRAWS YR HOLL GEISIADAU (DEFNYDDIWR GWASANAETH) | | | |
|---|---|---|---|
| Defnyddiwr Gwasanaeth | 2018/19 | 2019/20 | Newid (%) |
| **Yr Heddlu** | 5,089 | 5,832 | **+14.6** |
| **Y CPS** | 1,182 | 1,075 | **-9.1** |

**Tabl 8**

[31] Ffigur 10, *Data Gwasanaeth Paru'r NCA 2019/20*


[32] Tabl 8, *Data Gwasanaeth Paru'r NCA 2017 – 2020*

# Cyfraddau Paru Llwyddiannus

Er 2018/19, mae'r cyfraddau paru llwyddiannus ar gyfer ceisiadau gan yr heddlu a'r CPS wedi cynyddu – cynnydd o 1.6% ar gyfer yr heddlu a 3.8% ar gyfer y CPS.[33]

| NEWID MEWN CYFRADDAU PARU LLWYDDIANNUS (DEFNYDDIWR GWASANAETH) | | | |
|---|---|---|---|
| **Defnyddiwr Gwasanaeth** | **2018/19 (%)** | **2019/20 (%)** | **Newid mewn Ceisiadau a Barwyd (%)** |
| **Yr Heddlu** | 97 | 98.6 | **+1.6** |
| **Y CPS** | 93.1 | 96.6 | **+3.8** |

**Tabl 9**




**Ffigur 11**

## YR HEDDLU

### Ceisiadau a Barwyd +1.6%

O'r 5,832 o geisiadau gan yr heddlu, roedd 98.6% (5,751) wedi'u paru, 0.4% (24) heb eu paru, a'r 1% (57) arall wedi'u canslo.

Mae hyn yn gynnydd o 1.6% yng nghanran yr achosion a barwyd er 2018/19 (97% o geisiadau'r heddlu wedi'u paru) ac yn gynnydd o 5.5% er 2017/18 (93.5% o'r ceisiadau wedi'u paru).[34]

## GWASANAERH ERLYN Y GORON

### Ceisiadau a Barwyd +3.8%

O'r 1,075 o geisiadau gan y CPS, roedd 96.6 (1,038) wedi'u paru, 1.9% (20) heb eu paru, a'r 1.6% (17) arall wedi'u canslo.

Mae hyn yn gynnydd o 3.8% yng nghanran yr achosion a barwyd er 2018/19 (93.1% o geisiadau'r CPS wedi'u paru) ac yn gynnydd o 5.9% er 2017/18 (91.2% o'r ceisiadau wedi'u paru).[35]

---

[33] Tabl 9, *Data Gwasanaeth Paru'r NCA 2017 - 2020*

[34] Ffigur 11. *Data Gwasanaeth Paru'r NCA 2017 - 2020*

[35] Ffigur 11. *Data Gwasanaeth Paru'r NCA 2017 - 2020*

# Adborth gan Ddefnyddwyr Gwasanaeth

Caiff adborth gan ddefnyddwyr gwasanaeth (yr heddlu neu'r CPS fel arfer), ar ôl derbyn gwasanaeth gan Gyfryngwr Cofrestredig, ei werthuso yn erbyn pedwar maen prawf:

- **Cydymffurfio â Gweithdrefnau Troseddol**
- **Ymddygiad Personol / Proffesiynoldeb y Cyfryngwr Cofrestredig**
- **Ansawdd yr Wybodaeth gan y Cyfryngwr Cofrestredig**
- **Pa mor ddefnyddiol oedd y Cyfryngwr Cofrestredig yn yr Achos**

Caiff yr adborth o dan bob maen prawf ei ddadgyfuno rhwng gwasanaeth i ddioddefwyr a gwasanaeth i dystion yr erlyniad. Pan fydd adborth ar gyfer achos penodol yn llai na 'boddhaol', bydd y Bwrdd Sicrhau Ansawdd yn ymchwilio.


Mae defnyddwyr gwasanaeth yn asesu pob maen prawf ar sail y raddfa 1-5 isod:

| Adborth | Sgôr Gyfatebol |
|---|---|
| **Rhagorol** | **5** |
| **Mwy na Boddhaol** | **4** |
| **Boddhaol** | **3** |
| **Llai na Boddhaol** | **2** |
| **Gwael** | **1** |

## Trosolwg o'r Adborth

Rhoddwyd sgôr gyfartalog i'r adborth ar draws y meini prawf a'r ddau fath o dyst i ddangos barn defnyddwyr gwasanaeth am berfformiad Cyfryngwyr Cofrestredig yn 2019/20.

Ar sail 2,706 o achosion (lle derbyniwyd adborth)[36], derbyniodd 99.8% adborth 'boddhaol', 'mwy na boddhaol' neu 'ragorol'. Ar gyfer y 0.2% arall, roedd 0.1% o'r adborth yn 'llai na boddhaol' a 0.1% yn 'wael'.[37]




**Ffigur 12**

[36] Ni dderbynnir adborth bob amser.
[37] Ffigur 12. *Data Gwasanaeth Paru'r NCA 2019/20*

# Adborth ar Draws yr Holl Feini Prawf

Isod cyflwynir yr holl ganlyniadau ar gyfer pob math o dyst a'r holl feini prawf adborth.[38]

| ACHOSION DIODDEFWYR | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maen Prawf Adborth** | **'Rhagorol' (%)** | **Mwy na Boddhaol (%)** | **Boddhaol (%)** | **Llai na Boddhaol (%)** | **Gwael (%)** | **Ymatebion** |
| **Cydymffurfio â gweithdrefnau troseddol** | 87.9 (2183) | 11.2 (277) | 0.7 (18) | 0.1 (3) | 0.1 (2) | 2483 |
| **Ymddygiad personol a phroffesiynoldeb** | 93.3 (2320) | 6 (148) | 0.5 (13) | 0.2 (5) | 0.04 (1) | 2487 |
| **Ansawdd yr wybodaeth gan y Cyfryngwr Cofrestredig** | 90.1 (2239) | 8.8 (218) | 0.8 (21) | 0.2 (4) | 0.1 (3) | 2485 |
| **Pa mor ddefnyddiol oedd y Cyfryngwr Cofrestredig yn yr achos** | 87.6 (2146) | 10.4 (254) | 2 (40) | 0.2 (4) | 0.2 (4) | 2448 |

**Tabl 10**

| ACHOSION TYSTION YR ERLYNIAD | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maen Prawf Adborth** | **'Rhagorol' (%)** | **Mwy na Boddhaol (%)** | **Boddhaol (%)** | **Llai na Boddhaol (%)** | **Gwael (%)** | **Ymatebion** |
| **Cydymffurfio â gweithdrefnau troseddol** | 89.7 (191) | 9.9 (21) | 0.5 (1) | Dim | Dim | 213 |
| **Ymddygiad personol a phroffesiynoldeb** | 93.5 (202) | 6.5 (14) | Dim | Dim | Dim | 216 |
| **Ansawdd yr wybodaeth gan y Cyfryngwr Cofrestredig** | 87.3 (188) | 12.1 (26) | 0.5 (1) | Dim | Dim | 215 |
| **Pa mor ddefnyddiol oedd y Cyfryngwr Cofrestredig yn yr achos** | 87.6 (186) | 10.8 (23) | 1.4 (3) | Dim | Dim | 212 |

**Tabl 11**

[38] Tablau 10-11. *Data Gwasanaeth Paru'r NCA 2019/20*

# Cyfweliad â Chyfryngwr Cofrestredig: Sue Thurman



**PROFFIL**

Hyfforddodd Sue Thurman fel Cyfryngwr Cofrestredig yn 2009 ar ôl bron i ddeng mlynedd ar hugain yn gweithio fel Therapydd Iaith a Lleferydd.

Arbenigodd mewn gweithio gyda phlant ac oedolion sydd ag anableddau, yn enwedig y rhai sydd ag anableddau dysgu a chyflyrau sbectrwm awtistig. Mae hefyd wedi gwneud llawer o waith fel hyfforddwr yn hybu 'cyfathrebu cynhwysol' ac mae wedi gweithredu fel ymgynghorydd i nifer o elusennau a chyrff diogelu.

## Ers faint rydych chi wedi bod yn Gyfryngwr Cofrestredig?

Un mlynedd ar ddeg; hyfforddais yn 2009 ac rwyf wedi gweithio fel Cyfryngwr Cofrestredig ers hynny. Cyn hynny, roeddwn yn gweithio yn y GIG fel therapydd iaith a lleferydd, ac yn gweithio'n bennaf gyda phlant ac oedolion ag anableddau dysgu, cyflyrau sbectrwm awtistig ac anableddau corfforol. Fy swydd olaf cyn mynd drwy'r broses diswyddo gwirfoddol oedd rheolwr gwasanaethau therapi iaith a lleferydd ar gyfer oedolion ag anableddau dysgu.

## Sut wnaethoch chi glywed am y Cynllun Cyfryngwyr Tystion a beth wnaeth i chi ymgeisio am y swydd?

Gan fy mod yn gweithio fel therapydd ym maes gwasanaethau anabledd, ro'n i'n ymwybodol bod mwy o risg i bobl sydd ag anableddau – yn enwedig anableddau dysgu – fod yn ddioddefwyr troseddau. Roeddwn i hefyd yn ymwybodol o'r rhwystrau sy'n eu hwynebu yn y system cyfiawnder troseddol. Rydw i bob amser wedi gwerthfawrogi cyfiawnder a thegwch. Dydw i ddim yn hoffi bwlio a chau pobl allan o gymdeithas. Felly, mewn sawl ffordd, roedd swydd Cyfryngwr Tystion yn ymddangos yn berffaith i mi.

Yn ogystal â bod yn therapydd, roeddwn yn darparu gwasanaeth ymgynghori a hyfforddiant i nifer o sefydliadau anabledd a diogelu. Drwy'r gwaith hwn y deuthum yn ymwybodol o brosiect peilot y Cynllun Cyfryngwyr Tystion, a hynny yn 2004. Fe wnes i gyflwyno gweithdy mewn cynhadledd ar gyfiawnder, lle gwnes i gyfarfod y Fonesig Joyce Plotnikoff, ymchwilydd y system gyfiawnder, a oedd yn un o'r prif siaradwyr yn y digwyddiad. Deuthum o'r digwyddiad hwnnw gan feddwl bod gweithio fel cyfryngwr yn bendant yn rhywbeth y byddwn i'n hoffi ei wneud. Fodd bynnag, roeddwn yn teimlo nad oeddwn mewn sefyllfa i ymgymryd â'r rôl ar y pryd, gan nad oedd gennyf lawer o amser a minnau'n gweithio mewn swydd reoli amser llawn yn y GIG.

Yn nes ymlaen derbyniais gynnig ymddiswyddo gwirfoddol, ac yn fuan ar ôl hynny roedd ymgyrch i recriwtio Cyfryngwyr Cofrestredig, a disgynnodd popeth i'w le.

## Beth yw eich cefndir proffesiynol a pha sgiliau sydd gennych i'w cynnig i'r gwaith o sicrhau ansawdd y Cynllun Cyfryngwyr Tystion?

Bûm yn gweithio fel therapydd iaith a lleferydd am flynyddoedd felly datblygais lawer o sgiliau cyfathrebu arbenigol - cyfathrebu geiriol (fel gwneud gwybodaeth lafar yn haws i'w deall) a defnyddio strategaethau di-eiriau i helpu pobl i fynegi eu hunain drwy symbolau, arwyddion a chymhorthion cyfathrebu.

Treuliais lawer o'm hamser fel therapydd yn gwneud gwybodaeth yn hygyrch i bobl drwy droi cysyniadau cymhleth yn wybodaeth haws ei deall. Teimlaf fod hyn wedi rhoi llawer o sgiliau i mi a'm galluogi i weld beth yn union y mae ar bobl angen ei wybod er mwyn gwneud synnwyr o rywbeth. Pan fyddaf yn creu adnoddau neu'n egluro pethau i unigolion, rwyf bob amser yn gwneud yr adnoddau'n berthnasol i'w hanghenion penodol hwy.

Mae gan bobl syniadau gwahanol ynglŷn â beth y mae therapyddion iaith a lleferydd yn ei wneud; doeddwn i ddim yn therapydd 'eistedd a darparu therapi'. Wrth weithio gydag oedolion ag anawsterau cyfathrebu, roeddwn yn defnyddio model cyfathrebu gweithredol iawn a oedd yn edrych sut y gallai unigolyn gyfathrebu, beth roedd angen iddo ei gyfathrebu, a beth oedd yn gwneud cyfathrebu'n anos iddo. Yna byddwn yn rhannu gwybodaeth roeddwn wedi'i chasglu am yr unigolyn hwnnw ac yn awgrymu strategaethau y gallai pobl eraill eu rhoi ar waith er mwyn helpu i gefnogi ymdrechion yr unigolyn i gyfathrebu. Mae tebygrwydd mawr rhwng fy ngwaith fel therapydd a'm gwaith fel cyfryngwr. Fy rôl nawr yw helpu swyddogion yr heddlu, bargyfreithwyr a phobl eraill i gyfathrebu mor effeithiol ag sy'n bosibl er mwyn galluogi unigolyn i roi ei dystiolaeth.

Rydw i hefyd wedi dod â sgiliau eraill efo fi o'm cefndir rheoli a hyfforddi, er enghraifft sgiliau datrys problemau, meddwl dargyfeiriol, y gallu i gyfaddawdu ac i ddwyn perswâd. Mae'r sgiliau hyn wedi bod yr un mor bwysig â'r sgiliau cyfathrebu mwy clinigol drwy gydol fy nghyfnod yn gweithio fel Cyfryngwr Cofrestredig.

## Pa achos yw'r un mwyaf heriol rydych wedi helpu gydag ef?

Mae'n dibynnu beth rydych yn ei olygu â'r gair 'heriol'.

Mae pob achos yn cynnig her wahanol, boed oherwydd natur y drosedd, effaith emosiynol y drosedd ar y tyst neu arnoch chi, gweithio gyda staff eraill yn y system cyfiawnder troseddol, neu anghenion cyfathrebu'r tyst. Mae natur anrhagweladwy'r gwaith hefyd yn her fawr i gyfryngwyr cofrestredig.

Dydw i ddim eisiau cyfeirio at un achos penodol, ond gallaf feddwl am lawer o wahanol achosion sydd wedi bod yn dipyn o her; rhai sydd wedi cael sylw gan y cyfryngau cenedlaethol, tystion sy'n cael eu hamddiffyn, gweithio gyda chyfieithydd iaith dramor, tyst nad oedd yn gallu siarad o gwbl ac a oedd yn rhoi tystiolaeth drwy gyfeirio at symbolau â'i lygaid. Mae pob un o'r achosion hyn wedi bod yn her fawr, a byddai'n anodd eu gosod mewn trefn.

Mae'n bwysig nodi nad yw achosion uchel eu proffil yn fwy o her ynddynt eu hunain nag achosion sy'n cael ychydig o sylw neu ddim sylw o gwbl gan y cyfryngau. Y peth pwysig yw sicrhau bod y tyst yn cael ei glywed; dyma'r her go iawn yn aml. Yn gynnar iawn yn fy ngyrfa fel Cyfryngwr Cofrestredig, ro'n i'n ymwneud ag achos syml iawn mewn llys ynadon gyda phlentyn 16 oed â syndrom Asperger. Ar y dechrau, doeddwn i ddim yn siŵr a oedd arno angen cymorth cyfryngwr, er bod fy asesiad yn dangos bod arno angen cymorth. Am

nifer o resymau, roedd pobl eraill a oedd yn rhan o'r achos – ei deulu a'r cyfreithwyr – eisiau iddo beidio â rhoi tystiolaeth. Ond roedd y plentyn yn bendant y dylai'r llys glywed ei fersiwn ef o'r digwyddiadau. Rwy'n dal i'w gofio hyd heddiw. I mi, roedd yr achos hwn yn dangos pa mor bwysig yw hi bod unigolyn yn gallu cyfathrebu a rhoi tystiolaeth mewn llys, ac nad oes gwahaniaeth pa mor amlwg neu ddifrifol y mae'r achos yn ymddangos ar yr olwg gyntaf.

## Pa agwedd ar eich gwaith fel Cyfryngwr Cofrestredig sy'n rhoi'r boddhad mwyaf i chi?

Teimlo mod i wedi gwneud gwahaniaeth ystyrlon i fywyd rhywun neu i sefyllfa arbennig. Dyma beth oedd yn arfer rhoi boddhad i mi yn fy ngwaith fel therapydd iaith a lleferydd hefyd.

Yn fy rôl fel cyfryngwr, gallai hyn fod pan mae swyddog o'r heddlu yn dweud wrthych bod y cymorth y gwnaethoch ei roi o fudd mawr, neu pan fyddwch yn ei gyfarfod eto yn nes ymlaen ac mae'n dweud wrthych ei fod yn dal i ddefnyddio'r strategaeth y gwnaethoch ei hegluro wrtho. Gallai fod pan mae bargyfreithiwr yn diolch i chi am ei helpu i eirio ei gwestiynau mewn ffordd sy'n ei alluogi i groesholi tyst pan oedd yn meddwl nad oedd hynny'n bosibl.

Ond y tystion sy'n rhoi'r boddhad mwyaf i mi, yn enwedig pan maen nhw'n sylweddoli eu bod nhw'n gallu gwneud rhywbeth nad oedden nhw'n meddwl y bydden nhw'n gallu ei wneud ac yn llwyddo i roi eu tystiolaeth orau. Gall hyn fod drwy ddefnyddio offeryn cyfathrebu syml, neu drwy helpu i reoli'r gorbryder sy'n atal yr unigolyn rhag cyfathrebu'n glir.

Rwy'n pwysleisio fy mod yn ddiduedd a bod gen i ddyletswydd i'r llys, ond mae bob amser yn deimlad braf pan fydd y tyst yn diolch yn bersonol i chi. Yn dilyn un achos pan roddwyd dyfarniad o 'ddieuog', rhoddodd yr achwynydd gerdyn i mi â'r geiriau hyn arno - 'Fyddwn i ddim wedi gallu gwneud hyn heb eich help chi'. Ro'n i'n teimlo bod hyn yn egluro beth yw rôl Cyfryngwr Cofrestredig; helpu pobl i gyfathrebu a gwneud gwahaniaeth cadarnhaol, beth bynnag yw canlyniad yr achos.

## Pa gyngor fyddech chi'n ei roi i rywun sy'n cychwyn ar ei yrfa fel Cyfryngwr Cofrestredig?

Byddwn yn dweud pedwar peth.

Yn gyntaf, gwnewch yn siŵr nad ydych ar eich pen eich hun. Gall gweithio fel Cyfryngwr Cofrestredig fod yn brofiad unig iawn, oherwydd rydyn ni i gyd yn hunangyflogedig ac wedi'n lleoli mewn gwahanol leoedd ar hyd a lled y wlad. Er hyn, mae yna bob amser lawer o gyfleoedd i gyfarfod cyfryngwyr mwy profiadol. Felly manteisiwch ar gyfleoedd fel yr RIO (cymuned ar-lein i gyfryngwyr), ac wrth gwrs y grwpiau rhanbarthol.

Yn ail, os ydych yn cychwyn ar eich gyrfa, peidiwch â rhuthro a derbyn llawer o achosion. Cymerwch amser i fyfyrio ar bob achos a dysgu ohonynt. Os nad ydych yn cymryd amser i fyfyrio, nid ydych yn debygol o wneud newidiadau cadarnhaol i'r ffordd rydych yn gweithio. Mae'n bwysig cofio nad oes neb byth yn cyrraedd pwynt lle mae wedi dysgu popeth ac

wedi gweld pob sefyllfa; hyd yn oed ar ôl un mlynedd ar ddeg yn y gwaith rwy'n dal i ddod ar draws sefyllfaoedd a heriau newydd. Ond os oes gennych sylfaen dda i'ch gwaith a dealltwriaeth o'r ffiniau a'r egwyddorion, yna bydd hynny'n eich paratoi i ddelio gydag unrhyw beth sy'n codi. Felly, yn syml iawn; myfyriwch a pheidiwch â rhuthro.

Yn drydydd, chwiliwch am grŵp o 'ffrindiau'. Yn fuan iawn ar ôl dechrau gwneud y gwaith yma, mi wnes i ddarganfod grŵp bach o gyfryngwyr eraill y deuthum i'w parchu ac i ymddiried ynddyn nhw. Hyd heddiw rwy'n dal i droi at lawer o'r bobl hyn i rannu syniadau os bydd problem yn codi. Felly, defnyddiwch nhw, ond peidiwch â chreu cysylltiad â dim ond un grŵp. Mae amrywiaeth eang iawn o grwpiau y gallwch ac y dylech ddysgu ganddynt.

Yn olaf, peidiwch â chael eich llethu a mynd i deimlo bod yn rhaid i chi ddatrys pob problem. Gan fod cyfryngwyr yn tueddu i ddod o gefndiroedd gofalgar a therapiwtig, yn aml iawn rydym yn tueddu i fod eisiau gwneud hyn. Mae'n bwysig cofio mai dim ond darn bach ydyn ni mewn system gymhleth. Cydnabod hynny ac aros o fewn ein rôl gyfathrebu arbenigol yw'r ffordd orau y gallwn ni gyfrannu tuag at wneud gwahaniaeth ystyrlon yn y system cyfiawnder troseddol i dystion.

## Beth yw'r cyngor mwyaf defnyddiol a gawsoch yn ystod eich cyfnod fel Cyfryngwr Cofrestredig?

Y neges roedden ni'n ei chael wrth hyfforddi i fod yn Gyfryngwyr Cofrestredig oedd bod angen '*meddwl am dreial'* drwy'r adeg. Hynny yw, dylem bob amser feddwl am effaith yr hyn rydym yn ei wneud ar unrhyw dreial a allai gael ei gynnal.

Mae hyn wedi fy helpu i gadw at yr egwyddorion pwysig, er enghraifft peidio â derbyn achosion oni bai fy mod yn gwybod bod gennyf y sgiliau a'r profiad sydd ei angen, bod yn ddiduedd bob amser, a pheidio â chael fy 'mherswadio' i dderbyn achosion rydw i'n teimlo na ddylwn eu derbyn am ryw reswm. Mae cofio '*meddwl am dreial*' wedi bod yn fuddiol iawn i mi bob amser, a gwn fod llawer o'm cydweithwyr yn cytuno.

# Rhan Tri: Datblygiadau yn y Cynllun Cyfryngwyr Tystion 2019/20

## Crynodeb

Drwy gydol 2019/20, mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder wedi ceisio cryfhau'r Cynllun Cyfryngwyr Tystion drwy nifer o wahanol fesurau a fwriadwyd er mwyn diwallu anghenion dioddefwyr a thystion bregus, sicrhau bod defnyddwyr gwasanaeth yn cael cymorth o safon uchel gan Gyfryngwyr Cofrestredig, a chefnogi datblygiad proffesiynol Cyfryngwyr Cofrestredig.

I'r perwyl hwn, mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder wedi cyflwyno ymgyrch recriwtio newydd sy'n seiliedig ar sgiliau; mwy o dryloywder; diweddaru dulliau gweithio'r Bwrdd Sicrhau Ansawdd; cynyddu capasiti'r Cynllun Cyfryngwyr Tystion; recriwtio mwy o Gyfryngwyr Cofrestredig achrededig; a diwygio trefniadau llywodraethu a gweinyddu'r Cynllun.




Mae pob un o'r mesurau hyn yn cefnogi amcan canolog y Weinyddiaeth Gyfiawnder o sicrhau cyfiawnder i ddioddefwyr a thystion bregus yn y system cyfiawnder troseddol.

## Recriwtio ar sail Sgiliau

Mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder wedi gweithredu strategaeth recriwtio newydd sy'n seiliedig ar sgiliau er mwyn cael yr arbenigedd sydd ei angen fwyaf yn y Cynllun Cyfryngwyr Tystion. Mae hyn yn ategu'r dull recriwtio rhanbarthol, sydd wedi llwyddo i leihau amseroedd aros i lai na phythefnos a chynyddu capasiti'r Cynllun Cyfryngwyr Tystion 24% rhwng 2017 a 2019.

Mae'r dull hwn sydd wedi'i dargedu yn golygu bod modd canolbwyntio ymgyrchoedd recriwtio ar sgiliau arbenigol lle mae tystiolaeth bod angen rhagor o Gyfryngwyr Cofrestredig ag arbenigedd mewn meysydd fel anhwylderau iechyd meddwl, anableddau dysgu, anableddau corfforol a chyfathrebu â phlant. Mae'n golygu y gall mwy o

ddioddefwyr a thystion gael Cyfryngwr Cofrestredig sydd yn y sefyllfa orau i'w helpu â'u hanghenion penodol.

Mae gweithgareddau recriwtio hefyd yn cael eu cynnal ar raddfa fwy, gan gynnwys mwy nag un rhanbarth mewn un rownd recriwtio. Mae hyn wedi cynyddu'r gronfa o dalentau sydd ar gael.

Dechreuodd y rownd gyntaf o recriwtio ar sail sgiliau ym mis Ionawr 2020 mewn pedwar rhanbarth yng Nghymru a Lloegr. Roedd yn targedu ymgeiswyr â phrofiad o helpu oedolion a phlant bregus sydd ag anhwylderau iechyd meddwl difrifol.

Mae gwaith manwl wedi'i wneud gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder a'r NCA er mwyn canfod faint o alw sydd am sgiliau Cyfryngwyr Cofrestredig penodol a beth yw'r angen cyffredinol yn rhanbarthol. Cefnogir hyn â data gan y Tîm Cyfryngwyr Tystion (ar y galw am sgiliau penodol, y galw rhanbarthol am Gyfryngwyr Cofrestredig a chyfraddau llwyddiannus rhanbarthol wrth baru Cyfryngwyr Cofrestredig ac achosion), yn ogystal â'r Swyddfa Ystadegau Gwladol (ar gyfraddau troseddu rhanbarthol, cyfanswm y troseddau a gofnodwyd fesul rhanbarth ac amcangyfrif o'r boblogaeth ranbarthol).

Nodir sgiliau arbenigol yn y cam recriwtio a chânt eu cymeradwyo gan y Bwrdd Sicrhau Ansawdd cyn cofrestru'r ymgeisydd. Asesir sgil drwy benderfynu a oes gan yr ymgeisydd wybodaeth sylweddol o oblygiadau ieithyddol cyflwr (neu gyflyrau) mewn maes bregusrwydd (e.e. anhwylder meddyliol). Rhaid cefnogi hyn â phrofiad ymarferol o helpu pobl sydd â'r cyflwr hwnnw (e.e. sgitsoffrenia).

Mae rhestr syml o gyflyrau sy'n gysylltiedig â phob maes bregusrwydd (ac eithrio 'Cyfathrebu â Phlant') i'w gweld isod:

| SETIAU SGILIAU CYFRYNGWYR COFRESTREDIG: CYFLYRAU CYSYLLTIEDIG (RHESTR SYML) | | |
|---|---|---|
| **Anhwylderau Meddyliol** | **Anableddau Dysgu** | **Anableddau Corfforol** |
| Gorbryder | Anabledd dysgu bach/cymedrol | Rhuglder (atal dweud) |
| Iselder | Anabledd dysgu difrifol | Byddardod/nam clyw |
| Anhwylder affeithiol deubegynol | ADHD | Dysarthria |
| Anhwylder gorfodaeth obsesiynol | Anhwylder sbectrwm awtistiaeth | Anhwylder llais (gan gynnwys laryngectomi a thracheotomi) |
| Anhwylder personoliaeth (amhenodol) | Syndrom Asperger | Anaf i'r ymennydd neu'r pen (gan gynnwys strôc) |
| Sgitsoffrenia | Oedi/anhwylder datblygu iaith | Anhwylderau niwrolegol a dirywiol (gan gynnwys clefyd motor niwron a chlefyd Parkinson) |
| Dementia (gan gynnwys clefyd Alzheimer) | Mudandod dethol | Dementia (gan gynnwys clefyd Alzheimer) |
| | | Parlys yr ymennydd |

# Cynyddu Capasiti'r Cynllun Cyfryngwyr Tystion

Cwblhaodd y Weinyddiaeth Gyfiawnder dair rownd recriwtio yn 2019/20, gan recriwtio 39 o Gyfryngwyr Cofrestredig newydd. Roedd dwy rownd yn canolbwyntio ar ranbarthau unigol, ac yn dilyn y rhain ychwanegwyd 24 o Gyfryngwyr Cofrestredig at Gofrestr y Cynllun Cyfryngwyr Tystion. Ym mis Ionawr 2020 lansiwyd ymgyrch arall yn seiliedig ar sgiliau ar draws nifer o ranbarthau, a chafodd 15 o ymgeiswyr ag arbenigedd mewn anhwylderau iechyd meddwl arbenigol eu rhoi ar restr fer ar gyfer hyfforddiant Cyfryngwyr Cofrestredig.

Mae gallu'r Cynllun i fodloni'r galw gan ddefnyddwyr gwasanaeth wedi cynyddu'n sylweddol er 2018, ac adlewyrchir hyn gan gyfraddau uwch nag erioed o achosion wedi'u paru'n llwyddiannus yn 2019/20.

Bu'n rhaid gohirio gweithgareddau hyfforddi a recriwtio Cyfryngwyr Cofrestredig ym mis Mawrth 2020 er mwyn cydymffurfio â rheolau pellhau cymdeithasol y llywodraeth yn ystod pandemig y coronafeirws (Covid-19). O ganlyniad, nid oedd modd cynnal y gweithgareddau recriwtio a hyfforddi a oedd wedi'u cynllunio.

| RECRIWTIO CYFRYNGWYR COFRESTREDIG 2019/20 | |
|---|---|
| **Rhanbarth(au)/Set Sgiliau** | **Nifer wedi eu Recriwtio** |
| **Gogledd-orllewin Lloegr** | **19** |
| **Dwyrain Lloegr** | **5** |
| **Gorllewin Canolbarth Lloegr, Gogledd-orllewin Lloegr, De-orllewin Lloegr, De-ddwyrain Lloegr (sgiliau iechyd meddwl)** | **15 (yn disgwyl am hyfforddiant)**<br>Hyfforddiant Cyfryngwyr Cofrestredig wedi'i ohirio oherwydd Covid-19 |
| **CYFANSWM** | **39** |

# Diweddaru Dulliau Gweithio'r Bwrdd Sicrhau Ansawdd

Lansiodd y Bwrdd Sicrhau Ansawdd ei Strategaeth ym mis Medi 2019. Mae'r strategaeth yn amlinellu cynlluniau i gyflwyno nifer o bolisïau newydd yn ogystal â chwe rôl benodol i symleiddio gweithdrefnau sicrhau ansawdd.

Mae'r Bwrdd Sicrhau Ansawdd wedi rhoi'r strategaeth hon ar waith ac wedi llunio polisi cwynion diwygiedig yn ogystal â datblygu polisi addasrwydd i ymarfer a pholisi sancsiynau. Yn ychwanegol at hyn, mae gwaith wedi dechrau ar bolisi mentora ffurfiol yn seiliedig ar fewnbwn gan Gyfryngwyr Cofrestredig profiadol.

Diweddarwyd aelodaeth y Bwrdd Sicrhau Ansawdd hefyd, gan recriwtio pedwar aelod newydd. Yn dilyn yr ad-drefnu hwn, mae'r swyddi annibynnol ar y Bwrdd yn cynnwys: y Cadeirydd; Arweinydd Sicrhau Ansawdd; Arweinydd Datblygiad Proffesiynol Parhaus a'r Gofrestr Cyfryngwyr Cofrestredig; Arweinydd Mentora a Chefnogi; Arweinydd Adborth Negyddol, Cwynion a Sancsiynau; ac Arweinydd Recriwtio a Hyfforddi.

# Gwella'r Trefniadau Llywodraethu a Mwy o Dryloywder

Mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder wedi dal i weithio er mwyn gwella'r trefniadau llywodraethu a sicrhau mwy o dryloywder, ar sail adborth gan y gymuned Cyfryngwyr Cofrestredig.

Ym mis Medi 2019 cyhoeddodd y Weinyddiaeth Gyfiawnder ei hadroddiad blynyddol cyntaf erioed. Cafodd y Llawlyfr Canllawiau Gweithdrefnol i Gyfryngwyr Cofrestredig ei archwilio – y tro cyntaf iddo gael ei ddiwygio er 2015 - ac mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder wedi ymrwymo i adolygu'r Llawlyfr yn flynyddol er mwyn sicrhau bod y canllawiau'n parhau'n berthnasol ac yn gyfredol. Erbyn hyn gwahoddir Cyfryngwyr Cofrestredig achrededig i gymryd rhan yn yr adolygiad blynyddol o'r Llawlyfr, a gall pob Cyfryngwr Cofrestredig gynnig diwygiadau unrhyw bryd. Caiff y diwygiadau hyn eu cofnodi er mwyn eu hystyried yn yr adolygiad nesaf. Mae'r Tîm Cyfeiriol Cyfryngwyr Cofrestredig hefyd wedi ymrwymo i gasglu cynigion ar gyfer newid a'u cyflwyno i'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn flynyddol.

Mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder, Gwasanaeth Erlyn y Goron a Chyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu wedi cytuno ar weithdrefn ffurfiol ar gyfer yr adolygiad blynyddol o dâl. Mae hyn wedi safoni'r broses ac amlinellu ffrâm amser naw wythnos lle bydd y Bwrdd Tâl yn cwblhau'r adolygiad, ar ôl derbyn cynigion gan gynrychiolwyr Cyfryngwyr Cofrestredig.

Mae tudalen we y Cynllun Cyfryngwyr Tystion ar gov.uk wedi cael ei diweddaru'n gyson er mwyn darparu cynnwys hanfodol i Gyfryngwyr Cofrestredig a defnyddwyr gwasanaeth. Erbyn hyn mae dogfennau allweddol fel y Llawlyfr Canllawiau Gweithdrefnol i Gyfryngwyr Cofrestredig ac adroddiadau blynyddol i'w gweld yn gyhoeddus.

Mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder hefyd wedi cynhyrchu canllawiau i ddefnyddwyr y Cynllun Cyfryngwyr Tystion ar weithio gyda phobl fyddar yn y system cyfiawnder troseddol. Mae'r canllawiau hyn yn cynnwys cyfarwyddiadau a chyngor ynglŷn â phryd a sut i ofyn am gymorth Cyfryngwr Cofrestredig pobl fyddar, gyda'r bwriad o gynyddu ymwybyddiaeth o fyddardod ymhlith defnyddwyr gwasanaeth.

## Trosglwyddo Cyfrifoldeb am Recriwtio a Hyfforddi i'r NCA

Trosglwyddwyd y cyfrifoldeb am gydlynu'r gwaith o recriwtio a hyfforddi Cyfryngwyr Cofrestredig i'r Tîm Cyfryngwyr Tystion fel rhan o gytundeb lefel gwasanaeth diwygiedig rhwng y Weinyddiaeth Gyfiawnder a'r NCA.

O fis Ebrill 2020 ymlaen bydd y Tîm Cyfryngwyr Tystion yn cynllunio ac yn gweithredu ymgyrchoedd recriwtio Cyfryngwyr Cofrestredig yn y dyfodol ar sail ei ddadansoddiad annibynnol o setiau sgiliau Cyfryngwyr Cofrestredig a galw rhanbarthol. Bydd hefyd yn trefnu rhaglenni Hyfforddi Cyfryngwyr Cofrestredig yn y dyfodol gyda'r Tîm Hyfforddi Cyfryngwyr Cofrestredig, yn rheoli nifer yr ymgeiswyr newydd a dderbynnir, ac yn gweithio gyda Chyfryngwyr Cofrestredig achrededig er mwyn sefydlu grwpiau cymheiriaid sy'n cael eu hwyluso a threfniadau mentora ar gyfer Cyfryngwyr Cofrestredig newydd gymhwyso.

Mae'r newid hwn yn helpu i gryfhau'r cyswllt rhwng gweithrediadau, recriwtio a hyfforddi, fel bod modd cydlynu'r Cynllun yn well.

## Adolygiad o Wasanaethau Cyfryngwyr

Mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder wedi dal i symud ymlaen â'r Adolygiad o Wasanaethau Cyfryngwyr ar Draws y System Gyfiawnder. Mae'r adolygiad yn canolbwyntio ar gasglu tystiolaeth a data er mwyn cael dealltwriaeth lawn o'r defnydd o gyfryngwyr, cwmpas y

gwasanaethau, ansawdd a threfniadau rheoleiddio, ynghyd â'r dulliau o ddarparu gwasanaethau cyfryngwyr, gyda'r bwriad o wneud argymhellion ynglŷn â gwasanaethau cyfryngwyr yn y dyfodol.

Fel sail i wneud penderfyniadau, mae'r Tîm Cyfryngwyr wedi gweithio gyda grwpiau sy'n ymwneud â pholisi cyfiawnder teuluol, troseddol a sifil, yn ogystal â chyrff cyflawni, gweithwyr y system gyfiawnder (gan gynnwys cyfryngwyr), y farnwriaeth a'r byd academaidd.

## Mwy o Gyfryngwyr Cofrestredig achrededig

Mae cyflwyno rôl Cyfryngwyr Cofrestredig achrededig wedi parhau i gynnig cyfleoedd i Gyfryngwyr Cofrestredig profiadol sydd â hanesion adborth rhagorol ymwneud mwy â gweithgareddau corfforaethol a ddirprwywyd gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder.

Mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder wedi gweithio drwy gydol 2019/20 er mwyn cynyddu nifer y Cyfryngwyr Cofrestredig achrededig fel rhan o'i ymdrechion i gynnwys mwy o Gyfryngwyr Cofrestredig yn y gwaith o lywodraethu'r Cynllun Cyfryngwyr Tystion. Mae wedi gofyn am fewnbwn gan Gyfryngwyr Cofrestredig achrededig yn rheolaidd wrth ddatblygu polisïau a chanllawiau, ac mae wedi dal i ddarparu cymorth i Gyfryngwyr Cofrestredig achrededig â materion hyfforddiant, recriwtio, mentora ac arwain y grwpiau cymheiriaid ar gyfer Cyfryngwyr Cofrestredig Newydd Gymhwyso.

Mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder wedi gwneud cynnydd â'i hamcan o recriwtio pedwar cydlynydd rhanbarthol, gan lenwi dwy o'r pedair swydd a oedd ar gael. Penodwyd Louise Engers yn gydlynydd rhanbarthol ar gyfer Canolbarth Lloegr yn 2020, gan ymuno â Jennifer Beaumont, y Cydlynydd Rhanbarthol ar gyfer Gogledd Lloegr a Chymru.

Cydlynwyr rhanbarthol sydd â'r swyddi uchaf ar gyfer Cyfryngwyr Cofrestredig achrededig ac maent yn gweithio er mwyn hwyluso cyfathrebu rhwng y Weinyddiaeth Gyfiawnder a Chyfryngwyr Cofrestredig yn y 43 ardal heddlu ar draws Cymru a Lloegr. Mae swyddi gwag o hyd yn Ne-orllewin a De-ddwyrain Lloegr, ac mae llenwi'r swyddi hyn yn dal yn flaenoriaeth i'r Weinyddiaeth Gyfiawnder.

Mae mwy o fanylion am yr uwch swyddi Cyfryngwyr Cofrestredig i'w gweld isod:

| Cydlynwyr Rhanbarthol y Cynllun Cyfryngwyr Tystion | |
|---|---|
| **Rôl** | Rôl ragweithiol yn arwain ym meysydd ymarfer da a datblygiad strategol yn eu rhanbarth. Bwriedir i Gydlynwyr Rhanbarthol wella'r cysylltiad rhwng y Weinyddiaeth Gyfiawnder a'r rhanbarthau, gan gynghori'r tîm polisi ynglŷn â materion sy'n codi (e.e. lleihad yn y galw, newidiadau i ymarfer defnyddwyr gwasanaeth) mewn cysylltiad â gweithgaredd Cyfryngwyr Cofrestredig. Mae'r Cydlynydd Rhanbarthol yn monitro ac yn gwerthuso gweithgaredd Cyfryngwyr Cofrestredig yn y rhanbarth er mwyn darparu gwybodaeth ar gyfer gweithgaredd ymgysylltu.<br><br>Mae'r Cydlynydd Rhanbarthol yn darparu cefnogaeth ac arweiniad i'r Cyfryngwyr Cofrestredig a rhanddeiliaid yn eu rhanbarth er mewn sicrhau bod gwasanaeth effeithlon ac effeithiol yn cael ei ddarparu. Mae ganddynt rôl allweddol i'w chwarae wrth gyfathrebu am fentrau newydd, a chodi ymwybyddiaeth o bolisïau, gweithdrefnau a chanllawiau newydd. |

| | |
|---|---|
| | Mae'r Cydlynydd Rhanbarthol hefyd yn gyfrifol am ddatblygu a gweithredu strategaeth gyfathrebu ranbarthol. |
| **Y Prif Ofynion** | Rhaid i Gydlynydd Rhanbarthol fodloni'r meini prawf ar gyfer Cyfryngwyr Cofrestredig achrededig a bod yn arweinydd profiadol, sy'n gallu gweithio ar ei liwt ei hun, cyfathrebu'n effeithiol a gweithio gyda nifer o wahanol randdeiliaid. |

| Cyfryngwyr Cofrestredig Achrededig | |
|---|---|
| **Rôl** | Rôl adweithiol lle gall Cyfryngwr Cofrestredig, sydd wedi'i achredu gan yr NCA, y Bwrdd Sicrhau Ansawdd a'r Weinyddiaeth Gyfiawnder, dderbyn tasgau a roddir gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder.<br><br>Mae'r cyfleoedd arferol yn cynnwys:<br>• Cyfrannu tuag at recriwtio (hysbysebu/ dewis a dethol ceisiadau /cyfweliadau)<br>• Hyfforddi<br>• Mentora<br>• Hwyluso grwpiau cymheiriaid<br>• Ymwneud â datblygu gweithredol<br><br>Mae'r cyfleoedd rhagweithiol yn cynnwys:<br>• Nodi a chyflwyno cynigion i fodloni anghenion datblygiad proffesiynol parhaus.<br>• Chwarae rhan arweiniol wrth gynnig cefnogaeth weithredol i'r heddlu, llysoedd a gorsafoedd yr heddlu.<br>• Rhoi cefnogaeth weithredol i'r heddlu drwy ddarparu hyfforddiant ymwybyddiaeth o Gyfryngwyr Cofrestredig. |
| **Y Prif Ofynion** | Rhaid cael o leiaf dair blynedd o brofiad, bod wedi cwblhau o leiaf 100 o achosion a chael hanes adborth rhagorol. |

## Cynhadledd Flynyddol y Cynllun Cyfryngwyr Tystion 2020

Cynhaliodd y Weinyddiaeth Gyfiawnder Gynhadledd Flynyddol y Cynllun Cyfryngwyr Tystion am yr ail flwyddyn yn olynol, ar ôl ailgyflwyno'r digwyddiad yn 2019.

Roedd y Gynhadledd yn gyfle unigryw i ddod â Chyfryngwyr Cofrestredig o bob rhan o Gymru a Lloegr at ei gilydd a myfyrio ar bwysigrwydd y rôl sydd ganddynt yn y system gyfiawnder troseddol. Thema ganolog cynhadledd 2020, y cytunwyd arni gan Gyfryngwyr Cofrestredig a'r Bwrdd Sicrhau Ansawdd, oedd diogelu.

Dangosodd adborth yn dilyn y gynhadledd fod y rhai a oedd yn bresennol yn fodlon iawn â'r digwyddiad.

# Cyfweliad â Chyfryngwr Cofrestredig: Lorraine Campbell



**PROFFIL**

Ar ôl 30 mlynedd mewn addysg prif ffrwd, gan gynnwys swydd Pennaeth, penodwyd Lorraine Campbell yn diwtor ac asesydd ar gyfer oedolion sy'n hyfforddi i fod yn Gynorthwywyr Addysgu Lefel Uwch a hefyd uwchraddedigion sy'n ceisio statws Gweithwyr Proffesiynol y Blynyddoedd Cynnar. Drwy gydol ei gyrfa, mae Lorraine wedi cael profiad o gyflwyno gwybodaeth i blant ac oedolion â galluoedd gwybyddol amrywiol a chyfathrebu â nifer o asiantaethau allanol.

Daeth Lorraine yn Gyfryngwr Cofrestredig yn 2004 ac ers hynny mae wedi cael cyfle i ddefnyddio ei sgiliau i asesu a chefnogi tystion bregus a gweithio gyda heddluoedd, eiriolwyr a barnwyr yng Nghymru a Lloegr.

## Ers faint rydych chi wedi bod yn Gyfryngwr Cofrestredig?

Ymunais â chynllun peilot y Cynllun Cyfryngwyr Tystion yn 2004. Roedd y cynllun peilot yn cael ei gynnal yn Llundain a Birmingham, a oedd yn gymharol agos at fy nghartref a'm gweithle.

Yn ystod y diwrnodau cynnar hynny, fe wnaethon ni dreulio llawer o amser yn egluro beth yn union oedd ein rôl pan oeddem yn cyfarfod defnyddwyr gwasanaeth ac ymarferwyr yn y system gyfiawnder. Roedd rhai'n croesawu'r rôl newydd, ond roedd eraill yn fwy ansicr ynglŷn â sut y byddai'r rôl yn gweithio yn ymarferol.

## Sut wnaethoch chi glywed am y Cynllun Cyfryngwyr Tystion a beth wnaeth i chi ymgeisio?

Pan hysbysebwyd y swydd roeddwn i'n gweithio fel pennaeth, a gan mod i wedi bod yn bennaeth ers llawer o flynyddoedd roeddwn i'n chwilio am newid cyfeiriad proffesiynol.

Roedd un o'm cydweithwyr wedi gweld yr hysbyseb mewn cyfnodolyn therapi lleferydd, a hi wnaeth sôn wrtha i amdani. Fe wnes i drafod hyn gyda llywodraethwyr yr ysgol, a chefais ganiatâd i fynd i'r cyfweliad; ro'n i'n meddwl bod y swydd yn swnio'n ddiddorol iawn a bod cyfle gwych i mi ddefnyddio rhai o'r sgiliau a'r profiad roeddwn i wedi ei gael yn ystod y deng mlynedd ar hugain a dreuliais ym myd addysg.

## Beth yw eich cefndir proffesiynol a pha sgiliau sydd gennych i'w cynnig i'ch gwaith fel Cyfryngwr Cofrestredig?

Roeddwn i wedi bod yn gweithio ym maes addysg, gyda phlant o bob oed yn y sector cynradd.

Roeddwn yn bennaeth mewn ysgol a oedd â meithrinfa, yn ogystal ag uned fach ar gyfer plant ag anawsterau dysgu bach i gymedrol. Yn ychwanegol at hyn, roedd fy ysgol wedi cael ei dewis i fod yn rhan o gynllun peilot ar gyfer 'grŵp anogaeth'. Golygai hyn y byddai fy staff yn gweithio gydag ystod o blant â galluoedd gwahanol a hefyd yn canolbwyntio ar weithio mewn meysydd arbenigol. O ganlyniad, roeddwn yn dod i gysylltiad â nifer o

wahanol arbenigwyr megis seicolegwyr addysg, therapyddion iaith a lleferydd, therapyddion galwedigaethol, meddygon a rhieni. Drwy hyn, datblygais ddealltwriaeth dda o asesu sgiliau meddwl a lefelau canolbwyntio plant, yn ogystal â chael profiad o leihau iaith i'w ffurfiau symlaf a'i mynegi mewn ffordd y gallai plentyn ei dilyn. Mae hyn, wrth gwrs, yn hanfodol i waith Cyfryngwr Cofrestredig.

Ar ôl gadael fy swydd fel pennaeth cefais fy mhenodi'n hyfforddwr ac asesydd oedolion a oedd yn mynd i fod yn gynorthwywyr addysgu lefel uwch ac ymgeiswyr a oedd wedi cofrestru ar gwrs ôl-radd i addysgu plant ifanc. Yn y rôl hon, datblygais sgiliau i gefnogi datblygiad proffesiynol oedolion, gan wneud gwybodaeth gymhleth yn fwy hygyrch a'u helpu i weld sut y gallent drosglwyddo eu sgiliau presennol i'r maes gwaith newydd hwn. Unwaith eto, gwelais fod y profiad hwn yn ddefnyddiol iawn wrth ddechrau gweithio fel Cyfryngwr Cofrestredig. Mae dal i ddefnyddio'r sgiliau hyn a ddatblygais yn ystod y deng mlynedd ar hugain blaenorol mewn addysg uniongyrchol wedi rhoi llawer o foddhad i mi.

## Pa achos yw'r un mwyaf heriol rydych wedi helpu gydag ef?

Mae dau achos wedi aros yn fy nghof ac mae'r ddau'n wahanol iawn.

Roedd yr achos cyntaf yn ymwneud â merch ddeuddeg oed a oedd â galluoedd addysgol a chymdeithasol normal nes gofynnwyd iddi am ddigwyddiadau troseddol penodol a oedd wedi digwydd iddi. Roedd y ferch a oedd yn rhan o'r achos hwn wedi cael ei threisio'n gyson gan oedolyn. Byddai'n eistedd ac yn cynnal sgwrs normal nes gofynnid cwestiwn am y digwyddiadau. Er ei bod yn ymddangos bod arni eisiau siarad am y peth, byddai ei hwyneb yn mynd yn gwbl ddifynegiant a throdd yn fudan dethol.

Yn dilyn hynny dechreuodd y plentyn ysgrifennu llythyrau at berthynas, ac yn y llythyrau hyn eglurodd yn raddol beth oedd wedi digwydd iddi. Eglurodd perthynas y ferch wrthi y byddai'n rhaid iddi roi'r llythyrau i'r heddlu, ond daliodd i ysgrifennu, felly roeddem yn gwybod bod y plentyn yn ymwybodol y byddai'r heddlu'n darllen yr hyn roedd wedi ei ysgrifennu. Ar ôl cyfarfod y plentyn a chynnal asesiad, daeth yn amlwg ei bod wedi datblygu ymlyniad agos â'r swyddog o'r heddlu a oedd wedi bod yn ei chefnogi. Cynigiais y dylai'r swyddog arbennig o'r heddlu ddal i weithio gyda'r plentyn yn y cyfnod cyn y cyfweliad ABE; er hyn, doeddwn i'n dal ddim yn gallu dweud sut i'w hannog i ddatgelu gwybodaeth.

Roeddwn i wedi nodi bod y plentyn yn gallu ysgrifennu, ond yn cydnabod ei bod yn anodd gofyn iddi ysgrifennu atebion â llaw mewn cyfweliad ABE. Yna ystyriais ddefnyddio gliniadur i'r plentyn deipio ei hatebion a chafodd yr heddlu ganiatâd (y CPS) i gael cwmni arbenigol i weinyddu'r gliniadur. Gosododd y plentyn amodau penodol; nid oedd gan y swyddog hawl i edrych arni na siarad â hi o gwbl yn ystod y cyfweliad. O ganlyniad, roeddent yn eistedd mewn ystafell ac yn wynebu ei gilydd gyda gliniaduron. Roeddwn i mewn ystafell wylio ar wahân, lle gallwn weld y ddau gyfrifiadur, gan mai dyma'r unig ffordd y gallwn weld beth oedd yn cael ei deipio gan yr aelod o'r heddlu a'r plentyn. Roeddwn hefyd yn gallu monitro iaith corff y plentyn. Roedd y dull hwn yn effeithiol iawn. Cwblhaodd y plentyn y cyfweliad ABE drwy deipio ei hatebion.

Yna anfonwyd y cyfweliad ysgrifenedig i'r CPS. Am y tro cyntaf erioed, cytunodd y CPS y gellid cynnal y treial drwy gael y plentyn i deipio ei hatebion ar liniadur. Roedd y barnwr hefyd yn awyddus iawn i ddefnyddio pob mesur arbennig er mwyn galluogi'r plentyn i gyfathrebu. Defnyddiwyd y mesurau arbennig; teipiodd y plentyn ei hatebion a gwyliodd

hwy'n cael eu dangos ar sgrin yr ystafell cyswllt byw. Diffoddwyd microffonau'r amddiffyniad a'r erlyniad. Dyma sut y cafodd ei chroesholi.

Yn ystod yr un achos, roedd dadleuwr yr amddiffyniad yn amheus o'm rôl i fel Cyfryngwr Cofrestredig ac roedd yn gyndyn o adael i mi edrych ar ei gwestiynau a helpu gyda nhw; efallai gan nad oedd yn deall swyddogaeth y Cyfryngwr Cofrestredig. Fodd bynnag, roedd cwestiynu'r bargyfreithiwr hwn yn aml yn anaddas, a chafodd ei stopio gan y barnwr fwy nag unwaith. Er bod teipydd y llys wedi dechrau cofnodi cwestiynau'r cwnsler (a gallem weld y geiriau'n ffurfio ar y sgrin), bu'n rhaid iddi eu dileu wedyn. Roedd torri ar draws fel hyn yn beth annifyr iawn i'r tyst.

Yn ddiweddarach cafwyd y diffynnydd yn euog. Yn dilyn casgliad y gwrandawiad, derbyniais adborth fod y plentyn wedi gwella'n feddyliol ac yn emosiynol. Yn wir, doedd y staff yn ei hysgol ddim yn gallu credu pa mor hyderus a hapus oedd hi erbyn hyn a chymaint roedd hi wedi ymlacio. Roedd hyn yn newyddion da i mi; roedd yn braf gwybod hefyd fy mod wedi bod yn rhan o'r achos llys cyntaf erioed i ddefnyddio gliniaduron fel rhan o broses y treial.

Achos arall heriol iawn oedd un yn ymwneud â merch ifanc yn ei harddegau a oedd â nifer o anawsterau dysgu difrifol. Roedd ei gallu ieithyddol yn cyfateb i allu plentyn pedair neu bump oed. Roedd ei hwyliau emosiynol hefyd yn gyfnewidiol iawn; weithiau doedd hi ddim eisiau siarad o gwbl.

Doedden ni ddim wedi cael unrhyw broblemau tan y treial. Fodd bynnag, roedd symud y plentyn o'i hysgol i lys yn codi anawsterau mawr. Bûm yn gweithio gyda'r ysgol i helpu'r tyst i ymweld â'r llys. Roedd yn rhaid i mi helpu'r plentyn i fynd drwy'r offer diogelu, gan gynnwys ei chynnal hi'n gorfforol. Yn nes ymlaen gwrthododd y plentyn ddod allan o'r ystafell aros i fynd i'r ystafell cyswllt fideo, felly bu'n rhaid i ni drefnu ail ymweliad. Yn y cyfamser, roedd y barnwr wedi gofyn am gael fy nghyfarfod, er mwyn dod i ddeall ei hanghenion yn well. Y canlyniad oedd ein bod wedi cael nifer o ymweliadau eraill i ymgyfarwyddo â'r llys a hysbyswyd y barnwr fod gan y plentyn ofn dynion. O ganlyniad, awgrymais y dylai unrhyw un a fyddai'n dod i gysylltiad â hi gadw pellter nes byddai'r plentyn yn gallu dod i arfer â nhw.

Hysbyswyd y barnwr ymlaen llaw ynglŷn â'r ymweliad nesaf â'r llys ac yn ystod y cyfnod hwnnw daeth i'r coridor a siarad â'r plentyn am ychydig. Disgrifiais y barnwr fel rhywun 'tebyg i'r pennaeth', rôl roedd hi'n gyfarwydd â hi. Ar y trydydd ymweliad, fe wnaethon ni roi camerâu'r ystafell gyswllt a'r llys i fynd, a chyfathrebodd y tywysydd yr oedd hi wedi ei weld yn ystod pob ymweliad â hi o'r llys. Yna gofynnodd bargyfreithiwr yr erlyniad am gael cyfarfod y plentyn yn ei swyddfa. Roedd y bargyfreithiwr iau, wedi bod yn ddyfeisgar iawn, ac wedi gwneud pyped allan o'i wig, gan roi llygaid arno a'i ddefnyddio i siarad â'r plentyn; fe wnaeth hyn helpu'r plentyn i ymlacio. Roedd y barnwr hefyd wedi gofyn i bawb a fyddai'n rhyngweithio â'r plentyn yn y llys gael tynnu ei lun (gan gynnwys fi). Rhoddwyd y lluniau hyn ar amserlen weledol fel bod y plentyn yn gallu gweld y bobl y byddai'n eu cyfarfod yn y llys bob diwrnod. Roedd y barnwr yn ystyriol iawn ac yn cymryd y mesurau arbennig priodol o ddifri.

Ar ddiwrnod y treial, fe wnes i hebrwng y plentyn o'r ysgol i ystafell cyswllt fideo'r llys. Roedd wyneb y barnwr i'w weld ar y sgrin ac ymlaciodd y plentyn ar unwaith drwy ddweud, 'Edrych, dyma'r bos!'. Yn wir, fe wnaeth hi hefyd adnabod bargyfreithiwr yr erlyniad, a'i gofio drwy ddweud, 'Helo! Dyna'r dyn doniol!'. Er mawr ddifyrrwch i bawb, ymatebodd y

bargyfreithiwr drwy ddweud, 'Ia, diolch, ychydig iawn o bobl sy'n gwybod mai fi ydy'r dyn doniol.' Roedd y trefniadau gweinyddol yn golygu bod y plentyn wedi ymlacio digon i allu ateb pob cwestiwn, ac yn wir dilynwyd pob un o'r argymhellion a wnes i i'r llys mewn cysylltiad â mesurau arbennig.

Yn y ddau achos hyn, roedd y tyst yn teimlo rhyddhad a hapusrwydd ar ôl rhoi tystiolaeth. Fel Cyfryngwr Cofrestredig, rwy'n credu ei bod hi mor bwysig bod tystion yn gadael y llys gan deimlo eu bod wedi cael cyfle i siarad, beth bynnag yw canlyniad yr achos. Roedd y ddau achos hyn yn achosion dwys iawn, ac er eu bod nhw'n wahanol iawn i'w gilydd, roedd elfennau tebyg ynddynt. Nid y ffaith fy mod i'n gweithio gyda swyddog yr heddlu neu'n paratoi adroddiad oedd y peth pwysicaf, ond y ffaith fod y barnwyr, yn y ddau achos, wirioneddol eisiau gwybod am y tyst a deall pam yr oedd angen gwneud pethau'n wahanol.

## Pa agwedd ar eich gwaith fel Cyfryngwr Cofrestredig sy'n rhoi'r boddhad mwyaf i chi?

Heb os nac oni bai, ymateb y tyst pan mae'n gallu rhoi ei dystiolaeth yn llwyddiannus.

Mae hynny'n cynnwys gweld y tyst yn talu sylw i'r cwestiynau sy'n cael eu gofyn, gan wybod ei fod wedi gallu deall ac ymateb yn effeithiol. Boed yn ystod y croesholi neu yn ystod yr ymweliad â'r llys, mae gweld bod y tyst yn teimlo'n fwy hyderus ynglŷn â'r holl sefyllfa a gweld y tyst yn sylweddoli ei fod wedi cyflawni rhywbeth yr oedd efallai'n meddwl na fyddai'n gallu ei wneud yn rhoi boddhad mawr i weithiwr proffesiynol.

Rydw i hefyd yn cael llawer o foddhad pan fydda i'n cael ymateb cadarnhaol gan ddefnyddiwr gwasanaeth. Gallai hyn ddigwydd pan fydd swyddog yn cydnabod bod y cymorth wedi gwneud gwahaniaeth a galluogi cyfweliad i ddigwydd, neu ddod o hyd i ffordd well o gyfathrebu â'r tyst. Er bod cael ymateb cadarnhaol yn rhoi boddhad, mae gwybod bod rhywbeth rydych chi wedi'i wneud wedi bod o fudd i rywun arall hefyd yn rhoi llawer o foddhad.

## Cawsoch MBE yn ddiweddar am wasanaethau i ddioddefwyr a thystion ifanc. Sut deimlad oedd darganfod eich bod wedi cael eich enwebu a sut deimlad oedd derbyn yr anrhydedd?

Y peth cyntaf glywais i am yr anrhydedd oedd pan dderbyniais lythyr gan Siawnsri Canolog Urdd y Marchogion, yna galwad ffôn gan y swyddfa honno. Doeddwn i ddim yn gallu credu i ddechrau; wrth gwrs, doedd gen i ddim syniad mod i wedi cael fy enwebu. Ro'n i'n teimlo ei bod hi'n fraint fawr bod rhywun wedi paratoi'r cais hwnnw a rhoi geirdaon. Yn wir, aeth y Swyddfa Ddyfarniadau drwy bob agwedd ar fy ngyrfa broffesiynol gyda mi, o addysg plant i addysg oedolion ac yn olaf fy rôl fel Cyfryngwr Cofrestredig.

O'r eiliad honno ymlaen, er mai fi oedd yn derbyn yr anrhydedd ro'n i'n teimlo ei bod hi'n bwysig bod yr anrhydedd yn adlewyrchu gwaith pob Cyfryngwr Cofrestredig sy'n helpu pobl fregus i gyfathrebu. Ond roedd yn dipyn o sioc, a chymerodd dipyn o amser i mi ddod i arfer â'r syniad. Hyd yn oed heddiw, rwy'n methu credu weithiau ei fod wedi digwydd ac rwy'n gorfod pinsio fy hun.

Roedd yr wythnosau cyn i mi dderbyn yr anrhydedd yn rhai cyffrous iawn. Cyrhaeddais Balas Buckingham a chefais fy nhywys drwy lawer o ystafelloedd hardd. Roedd cyfarfod y bobl eraill a oedd yn cael eu hanrhydeddu hefyd yn ddiddorol iawn, oherwydd roedd gan

bob un ohonynt storïau gwahanol i egluro pam eu bod yno. Yna derbyniais yr anrhydedd gan Ei Uchelder Brenhinol y Tywysog William, a oedd yn gwybod tipyn am rôl Cyfryngwyr Cofrestredig. Roedd y ffaith ei fod wedi gallu siarad am y gwaith am ychydig funudau, a'i fod yn deall yr effaith y mae'r rôl yn ei gael ar lawer o bobl yn y system gyfiawnder, yn rhoi boddhad mawr i mi.

Roedd yn anrhydedd enfawr. Alla i ddim diolch i'r bobl wnaeth fy enwebu, oherwydd dydw i ddim yn gwybod pwy oedden nhw. Wrth gwrs, pan mae rhywun yn gofyn i mi am beth gefais i'r MBE, rwy'n cael cyfle i siarad am fod yn Gyfryngwr Cofrestredig, ac mae hynny'n wych.

## Pa gyngor fyddech chi'n ei roi i rywun sy'n cychwyn ar ei yrfa fel Cyfryngwr Cofrestredig?

Bod yn naturiol.

Ac yn bwysicach na dim, cofio beth yw eich rôl a beth yw'r prif nod: helpu'r defnyddiwr gwasanaeth a'r tyst i gyfathrebu.

## Beth yw'r cyngor mwyaf defnyddiol a gawsoch yn ystod eich cyfnod fel Cyfryngwr Cofrestredig?

Mae'n debyg mai 'gollwng eich gafael'.

Pan fyddwch chi'n gweithio gyda thystion, ac yn ceisio deall sut maen nhw'n teimlo, rydych chi'n mynd yn agos iawn atyn nhw, a gall hynny fod yn emosiynol weithiau.

Pan fydd y tyst wedi gwneud yr hyn y mae angen iddo ei wneud mae eich rôl chi wedi ei chwblhau ac mae eich cysylltiad chi drosodd. Gall ymddangos yn lle rhyfedd i stopio, oherwydd mae'r treial yn dal i fynd yn ei flaen. Yn ychwanegol at hyn, fyddwch chi ddim yn gwybod sut y bydd y tyst yn teimlo ynglŷn â'r canlyniad, na beth fydd yn digwydd nesaf iddo. Yn fyr, rydych chi wedi bod yn helpu'r unigolyn drwy gyfnod trawmatig iawn ac mae stopio'n sydyn yn gallu bod yn anodd. Mae llawer o Gyfryngwyr Cofrestredig yn cael anhawster â hyn gan eu bod yn dod o gefndiroedd proffesiynol lle byddant yn dal i ymwneud â'r unigolyn y maen nhw'n ei helpu am gryn dipyn o amser.

Pan fydd achos yn mynd yn dda a'r tyst wedi gallu cyflwyno ei dystiolaeth yn llwyddiannus, rydych yn teimlo'n falch eich bod wedi gwneud popeth yn eich gallu a bod y broses wedi ei chwblhau. Ond pan nad yw pethau'n mynd cystal, am ba bynnag reswm, gall pethau aros gyda chi. Mae llawer o'm cydweithwyr wedi siarad am hyn, ac mae rhai o'r Cyfryngwyr Cofrestredig newydd rydw i'n eu mentora wedi cysylltu â mi ar ôl cael y profiad hwnnw. Gall effeithio ar eich emosiynau a gallwch deimlo braidd yn ddigalon eich hun.

Mae'n bwysig cydnabod eich bod wedi gwneud popeth sydd yn eich gallu; allwch chi ddim stopio'r cwestiynau annymunol, na stopio rhywun rhag teimlo'n ddigalon neu fynd yn flin. Mae cynifer o agweddau ar y broses droseddol sydd y tu hwnt i'ch rheolaeth. Mae'n aros gyda chi i ddechrau, ond yn y pen draw, mae'n rhaid i chi fod yn gryf a dysgu 'gollwng eich gafael'.

# Rhan Pedwar: Cyllid y Cynllun Cyfryngwyr Tystion

## Y Gyllideb Weinyddol

Roedd cyllideb y Cynllun am 2019/20 yn £460,000, a £298,706 o hwn yn cael ei dalu i Dîm Cyfryngwyr Tystion yr NCA i ariannu Gwasanaeth Paru'r Cynllun ac Ysgrifenyddiaeth y Bwrdd Sicrhau Ansawdd.

Mae'r gweddill (£161,294) yn cael ei ddyrannu ar draws y Cynllun. Mae hyn yn cynnwys ariannu'r Bwrdd Cofrestru Cyfryngwyr, y Bwrdd Sicrhau Ansawdd a'r Tîm Cyfeiriol Cyfryngwyr Cofrestredig yn ogystal â dyletswyddau a gyflawnir gan Gyfryngwyr Cofrestredig achrededig.

| CYLLIDEB Y CYNLLUN CYFRYNGWYR TYSTION 2019/20 | | |
|---|---|---|
| **Dyraniad Cyllid** | **Swm (£)** | **% o'r Gyllideb Flynyddol** |
| **Gwasanaeth Paru'r Cynllun (+ Ysgrifenyddiaeth y Bwrdd Sicrhau Ansawdd)** | 298,706 | **64.9** |
| **Gweddill gwasanaethau'r Cynllun (y Bwrdd Cofrestru Cyfryngwyr, y Bwrdd Sicrhau Ansawdd, Tîm Cyfeiriol Cyfryngwyr Cofrestredig, recriwtio, hyfforddiant, datblygiad Cyfryngwyr Cofrestredig newydd gymhwyso, dyletswyddau Cyfryngwyr Cofrestredig achrededig)** | 161,294 | **35.1** |
| **CYFANSWM** | 460,000 | **100** |

## Cyfraddau Tâl

Telir Cyfryngwyr Cofrestredig ar sail cyfraddau a gytunir gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder, Gwasanaeth Erlyn y Goron a Chyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu (NPCC). Caiff cyfraddau tâl eu hadolygu'n flynyddol gan ddilyn gweithdrefn y cytunwyd arni.

Rhaid i Gyfryngwyr Cofrestredig anfonebu ar sail y cyfraddau cenedlaethol a gymeradwyir gan y Bwrdd Cofrestru Cyfryngwyr. Codir ffioedd fesul awr, ar gyfer apwyntiadau wyneb yn wyneb ac ysgrifennu adroddiadau, a chaiff costau teithio a chynhaliaeth eu had-dalu yn unol â chyfyngiadau'r polisi.

Pan fydd y Cyfryngwr Cofrestredig yn derbyn Cais am Wasanaeth bydd yn dod yn rhan o drefniant contract. Mae'r trefniant hwn rhwng y Cyfryngwr Cofrestredig, fel unigolyn hunangyflogedig, a'r gwasanaeth y daeth y cais ohono – fel arfer yr heddlu neu'r CPS.

# Cyfweliad â Chyfryngwr Cofrestredig: Louise Engers



**PROFFIL**

Cymhwysodd Louise fel Cyfryngwr Cofrestredig yn 2014. Yn 2020 cafodd ei phenodi'n Gydlynydd Rhanbarthol y Cynllun Cyfryngwyr Tystion ar gyfer Canolbarth Lloegr.

Mae Louise wedi gweithio fel Therapydd Iaith a Lleferydd cymwysedig er 2003. Mae ganddi brofiad o ddarparu gwasanaethau ym maes pediatreg ac oedolion ag anableddau dysgu. Mae ei meysydd arbenigedd yn cynnwys awtistiaeth, iechyd meddwl, ymddygiad heriol, cyfathrebu amgen a chynyddol ac integreiddio synhwyraidd.

## Ers faint rydych chi wedi bod yn Gyfryngwr Cofrestredig?

Hyfforddais yn Ionawr 2014, felly dros chwe blynedd a hanner.

## Sut wnaethoch chi glywed am y Cynllun Cyfryngwyr Tystion a beth wnaeth i chi ymgeisio?

Flwyddyn neu ddwy cyn i mi gymhwyso, roeddwn wedi anfon ebost at y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn gofyn pa drefniadau oedd gan y system gyfiawnder ar gyfer pobl ag anghenion cyfathrebu. Cefais ymateb gan swyddog yn sôn am y Cynllun Cyfryngwyr Tystion, a dywedodd, os oedd gennyf ddiddordeb, y gallai ychwanegu fy enw at restr o rai oedd â diddordeb a chysylltu â mi y tro nesaf y byddai'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn recriwtio Cyfryngwyr Cofrestredig.

Doeddwn i ddim wedi clywed am y swydd cyn hynny; doeddwn i ddim wedi gweld unrhyw hysbyseb nac wedi darllen dim byd amdani. Efallai fod hynny'n syndod gan fy mod yn Therapydd Iaith a Lleferydd, ond digwyddodd y cyfan ar hap.

Oherwydd fy nghefndir ym maes therapi iaith a lleferydd, roedd y gwaith yn edrych yn ddiddorol iawn. Roeddwn i hefyd yn meddwl y byddwn yn cael llawer o foddhad o drosglwyddo fy sgiliau a'm profiad ym maes therapi iaith a lleferydd i'r system gyfiawnder, a helpu pobl fregus iawn i roi eu tystiolaeth orau.

## Beth yw eich cefndir proffesiynol a pha sgiliau sydd gennych i'w cynnig i'ch gwaith fel Cyfryngwr Cofrestredig?

Rydw i wedi bod yn Therapydd Iaith a Lleferydd er 17 o flynyddoedd.

Y sgil fwyaf amlwg yw asesu gallu i gyfathrebu; mae gennyf brofiad helaeth o asesu pobl sydd ag anhwylderau cyfathrebu amrywiol. Mae'r sgiliau eraill sy'n trosglwyddo'n hawdd o rôl therapydd iaith a lleferydd i rôl Cyfryngwr Cofrestredig yn gysylltiedig â dulliau gweithio amlddisgyblaethol; hynny yw gweithio gyda nifer o wahanol asiantaethau a gweithwyr proffesiynol a gallu cyfathrebu'n effeithiol gyda nhw.

Yn ogystal, un o brif ddyletswyddau therapydd iaith a lleferydd yw helpu pobl i ddeall sut y mae anhwylderau cyfathrebu yn mynd i effeithio ar fywyd rhywun. Fel cyfryngwyr cofrestredig, mae'n rhaid i ni egluro wrth bobl sut y bydd anawsterau cyfathrebu unigolyn yn effeithio ar ei allu i roi tystiolaeth. Yn fy ngwaith fel therapydd iaith a lleferydd rwy'n defnyddio llawer o offer a strategaethau i bontio bylchau lle mae nam cyfathrebu. Rydw i hefyd wedi arfer ysgrifennu adroddiadau ac amlinellu argymhellion penodol a sail resymegol, felly mae'n amlwg bod rhai sgiliau yn gyffredin i'r ddwy swydd. Rwy'n defnyddio'r sgiliau hyn yn fy ngwaith fel therapydd iaith a lleferydd ac yn fy ngwaith fel Cyfryngwr Cofrestredig.

## Pa achos yw'r un mwyaf heriol rydych wedi helpu gydag ef?

Gall achosion fod yn heriol mewn nifer o wahanol ffyrdd. Gallai achos fod yn heriol oherwydd eich bod yn gweithio gydag unigolyn sydd â chyflwr heriol. Rwy'n gwneud llawer o waith gyda phobl sydd ag anawsterau iechyd meddwl, felly rydw i wedi arfer helpu pobl sy'n gallu bod yn bur ymfflamychol.

Mewn ffyrdd eraill, gall achosion fod yn heriol oherwydd eu bod yn straen emosiynol arnoch chi. Rydym yn clywed pethau sy'n achosi gofid i ni yn aml iawn yn ystod ein gwaith, ac weithiau rydych chi'n dod o gyfweliad gan deimlo eich bod chi eich hun wedi cael trawma. Weithiau pan fydd tyst yn siarad yn fanwl iawn am yr effaith y mae digwyddiad arbennig wedi ei gael ar ei fywyd, mae'n anodd stopio meddwl am y peth. Rwy'n siŵr bod pob Cyfryngwr Cofrestredig wedi gweithio gyda thystion a fydd yn aros yn ei gof am byth am y rheswm hwn. Yn fy marn i yr achosion emosiynol hyn yw'r rhai anoddaf i ddelio gyda nhw bob amser.

Pan fyddwch chi'n therapydd iaith a lleferydd rydych chi'n tueddu i weithio mewn lleoliad gofal iechyd gyda therapyddion iaith a lleferydd eraill. Os ydych chi wedi cael diwrnod anodd, gallwch fynd i ystafell sy'n llawn therapyddion iaith a lleferydd eraill, siarad am yr hyn sydd wedi digwydd a chael cefnogaeth ar unwaith. Fel Cyfryngwr Cofrestredig, pan fydd y cyfweliad neu'r treial drosodd, fel arfer rydych yn ffarwelio, yn mynd i'r car ac yn gyrru am adref. Gan fod Cyfryngwyr Cofrestredig yn dilyn rheolau cyfrinachedd llym, yn aml iawn ni allwn drafod agweddau ar yr hyn sydd wedi digwydd i ni gyda ffrindiau neu deulu, felly gall y swydd fod yn ynysig yn hynny o beth.

Gall agweddau mwy ymarferol ar y rôl fod yn heriol hefyd, er enghraifft rheoli eich dyddiadur. Yn aml iawn bydd gwrandawiadau'n cael eu haildrefnu ar fyr rybudd a disgwylir i chi aildrefnu eich cynlluniau yn unol â hynny. Un o'r pethau cyntaf rydych yn ei ddysgu yw defnyddio pensel i ysgrifennu pethau yn eich dyddiadur, nid beiro.

## Pa agwedd ar eich gwaith fel Cyfryngwr Cofrestredig sy'n rhoi'r boddhad mwyaf i chi?

Ar ddiwedd pob wythnos o weithio fel Cyfryngwr Cofrestredig, gallwch ddweud â'ch llaw ar eich calon eich bod wedi gwneud rhywbeth gwerth ei wneud.

Gallwch fod yn dawel eich meddwl eich bod wedi gwneud cyfraniad cadarnhaol drwy wneud sefyllfa anodd iawn ychydig yn haws i rywun. Heb gefnogaeth Cyfryngwr Cofrestredig, efallai na fyddai unigolyn yn gallu rhoi ei dystiolaeth neu gymryd rhan yn y

system gyfiawnder o gwbl. Drwy ddarparu'r gefnogaeth honno i gyfathrebu, rydych yn gwybod eich bod yn rhoi cyfle i bobl gael llais, ac mae hynny ynddo'i hun yn rhoi boddhad i rywun.

## Pa gyngor fyddech chi'n ei roi i rywun sy'n cychwyn ar ei yrfa fel Cyfryngwr Cofrestredig?

Trio peidio â chymryd gormod ar eich plât yn rhy fuan.

Byddwn yn annog unrhyw un sy'n dechrau o'r newydd i ddatblygu ei hyder yn raddol, a neilltuo digon o amser i fyfyrio ar ôl cwblhau pob achos. Dyma'r ffordd orau, yn fy marn i, o ddatblygu eich sgiliau yn y cam cyfweliadau'r heddlu ac yn y llys. Does dim ffordd well o ddysgu am sgiliau llys na chael profiad o fod yn y llys a myfyrio wedyn ar yr hyn rydych wedi ei ddysgu.

Mae'r syniad o ddechrau gweithio fel Cyfryngwr Cofrestredig ar ôl cwblhau'r hyfforddiant yn gallu bod yn ddigon brawychus, a dylai Cyfryngwyr Cofrestredig newydd wybod ei bod yn iawn iddyn nhw deimlo'n bryderus cyn eu treial cyntaf. Mae profiad a myfyrio yn magu hyder, a phan fyddwch yn dod yn fwy hyderus gallwch ddechrau derbyn mwy o achosion.

## Beth yw'r cyngor mwyaf defnyddiol a gawsoch yn ystod eich cyfnod fel Cyfryngwr Cofrestredig?

Edrych ar gynnwys eich adroddiad a gwneud yn siŵr bod eich argymhellion yn cael eu cefnogi gan sail resymegol gref yr ydych wedi gweld tystiolaeth ohoni.

Mae angen i chi wneud yn siŵr ei bod yn glir i bawb sy'n darllen eich adroddiad nad ydych wedi gwneud argymhelliad dim ond oherwydd bod yr argymhelliad i'w weld yn un o becynnau cymorth yr Advocate's Gateway.

Yr hyn y mae defnyddwyr gwasanaeth yn edrych amdano yn eich adroddiad yw gwybodaeth arbenigol amlwg am asesu galluoedd cyfathrebu, asesiad sy'n cael ei ddehongli i greu argymhellion, a phopeth yn cael ei egluro'n glir.

# Rhan Pump: Edrych Ymlaen

Wrth symud ymlaen, bydd y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn sicrhau bod y Cynllun Cyfryngwyr Tystion yn dal i fodloni'r galw cynyddol am Gyfryngwyr Cofrestredig tra'n darparu gwasanaethau o safon uchel i ddefnyddwyr gwasanaeth a phobl fregus ym mhob cwr o Gymru a Lloegr.

Caiff hyn ei arwain gan ymrwymiad ehangach y Weinyddiaeth Gyfiawnder i wella mynediad at gyfiawnder ac adeiladu system gyfiawnder o'r radd flaenaf sy'n gweithio i bawb yn ein cymdeithas.




## Bodloni'r Cynnydd yn y Galw

Bydd y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn datblygu ei strategaeth recriwtio ar sail sgiliau, drwy ddefnyddio dadansoddiad o'r sgiliau sydd eu hangen fwyaf yn y Cynllun Cyfryngwyr Tystion yn ogystal â'r galw rhanbarthol am gymorth Cyfryngwyr Cofrestredig.

Drwy ddefnyddio'r dull gweithredu hwn, bydd y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn dal i sicrhau bod digon o Gyfryngwyr Cofrestredig yn y Cynllun a bod dioddefwyr a thystion yn cael y Cyfryngwr Cofrestredig sydd yn y sefyllfa orau i'w helpu â'u hanghenion.

## Gwella'r Trefniadau Sicrhau Ansawdd

Bydd Bwrdd Sicrhau Ansawdd diwygiedig yn cryfhau'r trefniadau sicrhau ansawdd presennol. Bydd hyn yn cynnwys darparu polisi mentora clir a chadarn, yn ogystal ag adolygiad o ofynion datblygiad proffesiynol parhaus a'r dull o asesu setiau sgiliau Cyfryngwyr Cofrestredig.

## Cwblhau'r Adolygiad o Wasanaethau Cyfryngwyr ar draws y System Gyfiawnder

Bydd y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn cwblhau'r adolygiad o wasanaethau cyfryngwyr ar draws y system gyfiawnder yn niwedd 2020 ac yn symud i'r cam gweithredu.

Nod y Weinyddiaeth Gyfiawnder, drwy wneud hyn, yw sicrhau bod gwasanaethau o safon yn cael eu darparu ar draws awdurdodaethau mewn ffordd sy'n dangos gwerth am arian.

## Cyfleoedd i Uwch Gyfryngwyr Cofrestredig

Bydd y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn dal i gynyddu nifer y swyddi uwch gyfryngwyr cofrestredig yn y Cynllun Cyfryngwyr Tystion, a'u datblygu, gan sicrhau bod mwy fyth o gyfleoedd ar gael i Gyfryngwyr Cofrestredig gyfrannu tuag at y gwaith o ddatblygu trefniadau llywodraethu'r Cynllun.

Bydd dau gydlynydd rhanbarthol arall yn cael eu penodi fel bod pob ardal heddlu yng Nghymru a Lloegr yn cael ei chynrychioli gan uwch Gyfryngwr Cofrestredig.

OGL

© Hawlfraint y Goron 2020

Trwyddedir y cyhoeddiad hwn o dan delerau fersiwn 3.0 o'r Drwydded Llywodraeth Agored, ac eithrio lle nodir yn wahanol. I weld y drwydded hon, ewch i nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3

Lle'r ydym wedi nodi deunydd sydd â hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi ofyn am ganiatâd gan y rhai sy'n dal yr hawlfraint honno.